

Cyn Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru

**Adolygiad o Gynnydd
yn erbyn Safonau Gofal
Iechyd i Gymru –
1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth
2008**

Dyddiad: 1 Medi 2008

Cynnwys

	Crynodeb Gweithredol	iv
1.	Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2.	Proses Aseu 2007-08	5
3.	Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru	9
4.	Pa mor dda y mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru yn cyflawni yn erbyn y deg safon ganlynol	11
	× Safon 4	
	× Safon 5	
	× Safon 6	
	× Safon 7	
	× Safon 8	
	× Safon 9	
	× Safon 15	
	× Safon 17	
	× Safon 25	
	× Safon 26	
5.	A gyflawnwyd gwelliannau ar gyfer y Safonau hynny lle yr aseswyd bod Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru yn Ymwybodol neu'n Ymatebol ar un neu fwy o'r tair lefel aseu (Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, Profiad y Defnyddiwr) yn 2006-07?	29

6.	Pa mor dda y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi eu hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu a sicrhau mewnol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru?	47
-----------	--	-----------

7.	Y Camau Nesaf	51
-----------	----------------------	-----------

Atodiadau

Atodiad 1: Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd	53
---	-----------

Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Safonau hynny sy'n agored i ddilysiad annibynnol gan AGIC	55
---	-----------

Atodiad 3: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Safonau hynny nad ydynt yn agored i ddilysiad annibynnol gan AGIC	61
--	-----------

Atodiad 4: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr	65
--	-----------

Atodiad 5: Y Safonau Gofal Iechyd i Gymru – diffiniadau	67
---	-----------

Atodiad 6: Rhestr Termiau	73
---------------------------	-----------

Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Safonau Gofal Iechyd i Gymru ym mis Mai 2005 gan gyflwyno fframwaith cyffredin o 32¹ o safonau gyda'r nod o gynorthwyo'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd prydlon ac o ansawdd da a sicrhau lefelau gwell o driniaeth a gofal i ddinasyddion Cymru. O 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru asesu eu hunain yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd yn flynyddol a Byrddau'r sefydliadau hynny sydd â'r cyfrifoldeb pendant am gydymffurfio â'r safonau. O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd yr asesiad hwn yn rhoi sail i'w Datganiadau Rheolaeth Fewnol a'u Hadroddiadau Blynyddol.

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedyn yn gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu'r broses o brofi a dilysu hunanasesiadau. Nodir manylion y ffordd y cyflawnwyd hyn eleni a'r canfyddiadau sy'n deillio o'n hadolygiad yn Adran 4 prif ran yr adroddiad hwn. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio gydag Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu ymhellach ein dull o asesu sefydliadau yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd fel ei fod yn briodol i'r strwythurau newydd fydd yn cael eu sefydlu yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a gynhelir yn ystod hydref 2008.

Eleni hefyd, yn ogystal ag asesu a yw sefydliadau'n bodloni gofynion safonau unigol, rydym wedi ystyried a yw sefydliadau wedi ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd yn eu dulliau llywodraethu a sicrhau mewnol. Y llynedd roedd Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru yn gallu cyflwyno lefel o dystiolaeth a oedd yn cefnogi lefel aeddfedrwydd **Datblygol**² neu uwch ar gyfer 12 o'r 32 safon.

Eleni, ar gyfer pob Ymddiriedolaeth y GIG a Bwrdd Iechyd Lleol Powys fe wnaethom adolygu 10 o'r 32 safon [Safon 4, 5, 6, 7, 8, 9, 15, 17, 25 a 26] sef y safonau yr aseswyd bod nifer o sefydliadau darparwyr yn tangyflawni ynddynt y llynedd. Yn

¹ Nodir y 32 safon yn Atodiad 5 yr adroddiad hwn.

² Mae'n ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran cyflawni'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn pob un o'r 32 o safonau gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn sicrhau y gellir asesu perfformiad yn erbyn y pum lefel aeddfedrwydd canlynol – Ymwybodol; Ymatebol; Datblygol; Ymarferol ac Arweiniol.

gyffredinol, mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru wedi cynnal lefel debyg o berfformiad â'r llynedd yn erbyn y safonau hyn, gan iddi gael ei hasesu gydag aeddfedrwydd **Datblygol** neu uwch ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer dwy o'r 10 safon.

Fe wnaethom ni adolygu hefyd, ar gyfer pob Ymddiriedolaeth y GIG a Bwrdd Iechyd Lleol y safonau hynny lle'r oeddem yn asesu mai dim ond **Ymwybodol** neu **Ymatebol** yr oeddent yn 2006-07. Y llynedd, aseswyd bod Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru yn **Ymwybodol** neu'n **Ymatebol** ar un neu ragor o'r lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer 20 safon [Safon 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 14, 15, 16, 20, 25, 26, 27, a 30]. O ran pob un o'r safonau hyn mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos gwelliannau ac mae wedi cyflawni Aeddfedrwydd **Datblygol** neu uwch yn y tair lefel ar gyfer 5 o'r 20 safon [Safon 4, 10, 20, 26 a 27].

Ystyriwn fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhai camau i ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd a'u gwneud yn rhan o'i threfniadau llywodraethu. Mae tystiolaeth gyfyngedig bod y Bwrdd yn ymgysylltu ag agenda a phroses asesu'r Safonau Gofal Iechyd, ond rydym yn sicr y bydd y trefniadau sy'n cael eu sefydlu fel rhan o'r Ymddiriedolaeth Hywel Dda newydd yn arwain at welliant yn ystod y misoedd i ddod. Darperir manylion pellach am ddull yr Ymddiriedolaeth yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru o berfformiad yn 2007-2008 yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn cyflwyno fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin i gynorthwyo'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd da ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn anad dim, cynlluniwyd y Safonau Gofal Iechyd i ddarparu'r lefelau gofal a thriniaeth gwell y mae gan bobl Cymru hawl i'w disgwyl yn rhesymol. Maent felly'n darparu sail y gall sefydliadau gofal iechyd adeiladu arni a gwireddu'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal i gleifion a nodwyd yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd³ yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r lleoliad.

1.4 Mae'r *Safonau Gofal Iechyd i Gymru'n* nodi 32 o safonau mewn pedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o'r gwerthoedd craidd a ddylai fod yn sail i'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon mewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes hwnnw'n eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf, sef '*Profiad y Claf*' yn nodi:

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn

³ Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel cyrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dewisiadau'r cleifion unigol, gan y byddant wedi'u cynllunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac y byddant yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes, sef 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi y bydd:

Y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil wedi'i asesu'n briodol, yn nodi sydd ei angen er mwyn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fyddant yn profi oedi afresymol ar unrhyw adeg yn ystod y broses o ddarparu gwasanaethau na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes, sef 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn eglur:

Y bydd gan Ddarparwyr a Chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrhau ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn ganolog i'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes, sef 'Iechyd y Cyhoedd' yn datgan:

Y bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â sefydliadau perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiad

1.5 Y llynedd, am y tro cyntaf, roedd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG a Chomisiwn Iechyd Cymru asesu eu hunain yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* a gosodwyd y cyfrifoldeb pendant am sicrhau cydymffurfiad â'r *Safonau* ar Fyrddau'r sefydliadau gofal iechyd. Mae'r broses asesu flynyddol yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* yn allweddol i sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac, yn bwysicaf oll, y safonau y dylent eu disgwyl. O fis Ebrill 2008 ymlaen, defnyddir yr asesiad hwn fel sail i Ddatganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

1.6 Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiadau a'u ffurflenni hunanasesu'n ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu, profi a dilysu'r ffurflenni, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrywiaeth o ffynonellau data. Nodir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2007-2008 yn yr adran ganlynol.

2. Proses Asesu 2007-2008

Yr Hunanasesiad

2.1 Mae'r broses hunanasesu'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair gwahanol lefel:

- *Corfforaethol* – pa mor dda mae Byrddau'n gwneud eu gwaith o ran sicrhau cydymffurfiad â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut mae cydymffurfiad â'r safonau'n cael ei sicrhau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*⁴ – sut brofiad mae'r defnyddiwr yn ei gael ac a yw hyn yn gwella?

2.2 Pennwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon ac fe'u datblygwyd fel rhaglen asesu ar y we sy'n galluogi hunanasesiadau i gael eu cwblhau ar-lein ac i dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddwyd i bob cwestiwn gael ei lanlwytho. Mae'n ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran darparu'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu i berfformiad gael ei asesu ar y lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr fel bod ar un o bum lefel o aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Ymarferol
- Arweiniol

Mae diffiniadau o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn ar gael yn Atodiad 1.

2.3 9 Mai oedd y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd hunanasesiadau eleni; gan sicrhau bod terfynau amser yn cyd-fynd â'r cylch adrodd blynyddol a chaniatáu i olwg

⁴ Yng nghyd-destun y broses asesu Safonau Gofal Iechyd, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

gyflawn ar drefniadau llywodraethu sefydliadau, a pherfformiad clinigol ac ariannol gael eu derbyn ar union yr un pryd.

Profi a Dilysu

2.4 Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu cyflwyniad hunanasesu 2007-08 Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru, ac mae hyn wedi cynnwys:

- *Gwerthusiad manwl o'r deg safon ganlynol a nodwyd fel bod yn feysydd lle yr oedd nifer o ymddiriedolaethau'r GIG yn tangyflawni ynddynt y llynedd:*
 - × *Safon 4;*
 - × *Safon 5;*
 - × *Safon 6;*
 - × *Safon 7;*
 - × *Safon 8;*
 - × *Safon 9;*
 - × *Safon 15;*
 - × *Safon 17;*
 - × *Safon 25;*
 - × *Safon 26.*

- *Adolygiad o gynnydd yn erbyn y safonau hynny lle'r asesodd AGIC mai Ymwybodol neu Ymatebol yn unig yr oedd Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru ynddynt y llynedd, sef:*
 - × *Safon 1*
 - × *Safon 2*
 - × *Safon 3*

- × *Safon 10*
- × *Safon 11*
- × *Safon 12*
- × *Safon 14*
- × *Safon 16*
- × *Safon 20*
- × *Safon 27*
- × *Safon 30*

Asesiad o ymrwymiad Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru i'r Safonau Gofal Iechyd i Gymru ac yn enwedig pa mor dda y mae wedi eu hymsefydlu yn ei threfn lywodraethu a'i phrosesau sicrhau mewnol.

2.5 Cwblhawyd y camau canlynol er mwyn ein galluogi i wneud dyfarniad a darparu'r sicrwydd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn:

- × *Cam 1* - Dilysiad pen desg o'r hunanasesiadau a gyflwynwyd yn erbyn pob un o'r safonau uchod gyda thîm o adolygwyr cymheiriaid yn canolbwyntio ar y 10 safon benodol. Roedd y cam hwn yn cynnwys nodi pa un a oedd y cwestiynau oedd yn ategu pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi pa un a oedd yr atebion wedi'u hategu gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r marc aeddfedwydd a ddarparwyd gan y sefydliad.
- × *Cam 2* - Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Archwilwyr Mewnol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i asesu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r gwelliannau a nodwyd yng Nghynllun Gwella 2007-08 Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru ac o ran ymsefydlu'r broses o asesu yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd yn ei threfniadau llywodraethu arferol.
- × *Cam 3* - Cynnal Uwchgynhadledd Gofal Iechyd. Yn yr un modd â'r llynedd, fe wnaeth AGIC gydgysylltu a hwyluso cyfarfod, 'Uwchgynhadledd Gofal Iechyd',

gan ddod â chyrrff adolygu ac archwilio ynghyd fel y gellid rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu at y broses o gadarnhau asesiadau'r Safonau Gofal Iechyd. Eleni, datblygwyd y dull 'Uwchgynhadledd' ymhellach fel cam tuag at sefydlu asesiad risg a rennir rhwng sefydliadau archwilio, rheoleiddio ac arolygu, ac mae hwn yn ymrwymiad Concordat.

- × *Cam 4* - Cyfarfod gyda chynrychiolwyr Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru i drafod y canfyddiadau a gododd o'r camau uchod ac i roi cyfle i'r Bwrdd hysbysu'r tîm adolygu am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd.

3. Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru

3.1 Mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru'n darparu gwasanaeth gofal iechyd aciwt a chymunedol integredig. Mae Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais yn Aberystwyth yn darparu gwasanaethau aciwt, wedi'i ategu gan ysbytai cymuned yn Aberaeron, Aberteifi a Thregaron.

3.2 Mae'r brif ardal a wasanaethir gan ysbyty a gwasanaethau cymuned yr Ymddiriedolaeth yn debyg iawn i ffin bresennol Cyngor Sir Ceredigion, ac yn cynnwys poblogaeth o tua 70,000. Mae rhannau o dde Gwynedd, gogledd Powys a gogledd Sir Benfro'n rhan o ddalgylch yr Ymddiriedolaeth hefyd, sy'n golygu mai 120,000 yw'r amcangyfrifiad o gyfanswm y boblogaeth a wasanaethir gan y gwasanaeth aciwt. Hefyd, mae poblogaeth fawr o fyfyrwyr yn yr ardal ac mae twristiaeth yn cael effaith sylweddol yn ystod misoedd yr haf.

3.3 Ers mis Ebrill 2008, mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru wedi uno ag Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen ac Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin i ffurfio Ymddiriedolaeth GIG newydd Hywel Dda.

4. Pa mor dda y mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru yn cyflawni yn erbyn Safonau 4, 5, 6, 7, 8, 9, 15, 17 25 a 26?

Aseswyd y 10 safon ganlynol eleni oherwydd iddynt gael eu nodi fel meysydd roedd nifer o ymddiriedolaethau'r GIG yn tangyflawni ynddynt yn 2006-07⁵.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn:

- a. hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b. parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;*
- ch. darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-2008, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S4.2 Hysbysir Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Rheoli am bob datblygiad a gynllunnir mewn cyfleusterau gofal iechyd trwy adroddiadau cyfalaf misol sy'n cael eu paratoi gan y Cyfarwyddwr Cyfleusterau.

S4.3 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi Hyrwyddwr Dylunio, un o gyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd sy'n cyflawni swyddogaeth gwirio ansawdd trwy gydol oes prosiectau dylunio. Mae'n ymddangos bod dibyniaeth fawr ar y swyddogaeth hon wrth gynnig tystiolaeth ar lefel Gorfforaethol y safon hon, ond ni fu unrhyw werthusiad o'i heffeithiolrwydd.

S4.4 Adroddir gwybodaeth yn ymwneud ag urddas a pharch i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth trwy'r Cyfarwyddwr Nyrsio ac mae grwpiau arbenigol wedi'u sefydlu

i fynd i'r afael â materion fel diogelwch, amgylchedd gofal, iechyd a diogelwch. Mae rhywfaint o dystiolaeth o gynllunio hirdymor ac mae aelodau'r staff yn rhan o'r Fforwm Buddsoddiad Cyfalaf.

S4.5 Diffinnir atebolrwydd ar lefel y Bwrdd ym Mholisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, ond ni adolygwyd y polisi hwn ers 2004 fodd bynnag. Mae prosesau a sefydlwyd i reoli'r amgylchedd ffisegol, i leihau a rheoli peryglon, i leihau a rheoli risgiau a sicrhau diogelwch personol yn parhau i fod heb eu gwerthuso ar y cyfan.

S4.6 Mae tystiolaeth ar y lefel Weithredol i gefnogi i ba raddau y mae gan aelodau staff lefel o ddylanwad dros ddylunio a datblygu amgylcheddau gofal iechyd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r datganiad bod mewnbwn gan aelodau staff clinigol i ddyluniadau ac eithrio polisi gweithredol.

S4.7 Mae rhai enghreifftiau o'r ffordd mae aelodau staff yn gallu codi pryderon am amgylcheddau gofal iechyd yn cynnwys:

- Desg Flaen ar gyfer Cyfleusterau: Cofnodir diffygion neu bryderon mewn cronfa ddata a rhoddir rhif blaenoriaeth iddynt. (Blaenoriaeth 1, 2, 3 neu 4 – yn dibynnu ar ddifrifoldeb/brys y broblem). Mae perfformiad yn erbyn yr amseroedd ymateb a gyhoeddwyd yn cael ei fonitro a'i rannu gyda'r defnyddwyr gwasanaeth.
- Rhoi blwch awgrymiadau yn yr ardal Cleifion Allanol. Mae'r Rheolwr Cleifion Allanol yn adolygu'r cynnwys ac yn anfon awgrymiadau i'r adran briodol gymryd camau.
- Cyhoeddi cylchgrawn misol sy'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth am hyfforddiant, diweddariadau am ddeddfwriaeth a gwybodaeth am ddiogelwch.
- Archwiliadau Amgylchedd Safleoedd rheolaidd. Cynhelir yr archwiliadau hyn gan archwilydd allanol yn erbyn meini prawf cydymffurfiaid ar gyfer Gwobr y Ddraig Werdd am Reoli Amgylcheddol.

⁵ Dylid nodi yr aseswyd mai 'Datblygol' oedd lefel aeddfedrwydd Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru ar gyfer bob un o'r 10 safon hyn yn 2006-07.

- Archwiliadau diogelwch tân rheolaidd. Cynhelir y rhain bob mis gan y Cyngorydd Tân, y Pennaeth Ystadau (Rheolwr Diogelwch Tân enwebedig) a'r Rheolwr Gwasanaethau Gwesty i nodi materion lle nad oes cydymffurfiad.

S4.8 Dywedir bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth rywfaint o ddylanwad dros ddyluniad a datblygiad amgylcheddau gofal iechyd, er mai prin yw'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth i gefnogi hyn. Mae enghreifftiau o newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth gan gleifion a'r cyhoedd ar yr amgylchedd gofal yn cynnwys:

- Newid lloriau Wardiau Rhiannon a Llewelyn ac uwchraddio Ward Iorwerth.
- Gosod llenni y gellir eu taflu yn lle'r holl hen lenni brethyn, sydd yn edrych yn well a hefyd yn rhan o'r ffrwd gwaith lleihau heintiad.

S4.9 Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n fawr ar adborth gan y Cyngor Iechyd Cymuned, ac rydym o'r farn y dylid dyblygu'r dull hwn gyda'r wybodaeth a gasglwyd o gyfarfodydd grwpiau defnyddwyr a gwerthusiad o'r cynllun blwch awgrymiadau. Fodd bynnag, darparwyd enghraifft dda o'r Ymddiriedolaeth yn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaeth ac mae'n amlwg bod hyn wedi dylanwadu ar yr Ymddiriedolaeth wrth iddi brynu offer sganio.

S4.10 Mae ymateb a thystiolaeth yr Ymddiriedolaeth yn dangos bod llinellau atebolrwydd eglur wedi'u sefydlu ar y lefel Gorfforaethol, a bod systemau ar gyfer rheoli risg wedi'u sefydlu ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae cydnabyddiaeth o'r angen i sicrhau bod llinellau atebolrwydd a dulliau rheoli risg yn bodoli drwy'r sefydliad a'u bod yn cael eu defnyddio mewn arfer gweithredol. Mae'r ymateb i ddigwyddiadau defnyddwyr yn dangos gwelliant ers yr asesiad blaenorol ac mae system ffurfiol ar gyfer 'gwersi a ddysgwyd' wedi'i sefydlu bellach. Rydym yn cytuno felly gyda'r asesiad **Datblygol** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd:

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau*

cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac
c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.

S5.1 Daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar bob un o'r tair lefel. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S5.2 Mae tystiolaeth bod y Bwrdd Rheoli'n ymwybodol o'r materion glanhau sy'n bodoli ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio'n darparu adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd, sy'n cynnwys y diweddaraf am yr amgylcheddau gofal a glendid.

S5.3 Mae camau a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r safon hon yn cynnwys:

- Enwebu cyfarwyddwr anweithredol fel hyrwyddwr glendid yr Ymddiriedolaeth.
- Sefydlu grŵp Tasglu Glanhau dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Nyrsio, sy'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.
- Archwiliad hylendid dwylo.
- Cymryd rhan yn ymgyrch 'glanhewche**ieich**dwyllo'.

S5.4 Mae'n amlwg bod yr Ymddiriedolaeth yn dymuno gwella a cheir tystiolaeth o hyn trwy newidiadau a gynlluniwyd. Mae rhywfaint o dystiolaeth o gyfeiriad strategol ac mae prosesau sicrhau'r Bwrdd yn amlwg.

S5.5 Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, mae tystiolaeth bod yr Ymddiriedolaeth wedi nodi meysydd lle mae angen gwella ac wedi blaenoriaethu'r gwaith sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â materion, a cheir tystiolaeth o hyn mewn Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar waith Rheoli Ystadau Strategol ar gyfer 2006-2007, oedd yn dyddio o fis Mai 2007. Fodd bynnag, byddem wedi hoffi gweld mwy o dystiolaeth ddiweddarach i ddangos gwelliant parhaus yn y maes hwn.

S5.6 Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael bod lefelau glanhau'n cael eu mesur, eu monitro a'u hadrodd fel mater o arfer. Mae'r ddau adroddiad archwilio a lanlwythwyd fel tystiolaeth yn gryno, ac nid ydynt yn darparu digon o dystiolaeth y cyflawnir gwaith monitro ar draws yr Ymddiriedolaeth.

S5.7 Er bod atebolrwydd i lefel y Bwrdd wedi'i ddiffinio yng nghyswllt rheoli heintiau, nid yw adroddiadau'r Bwrdd a gyflwynwyd fel tystiolaeth yn cynnig tystiolaeth bod dulliau rheoli heintiau'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd. Cyflwynir Adroddiad Rheoli Heintiau Blyneddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth 2007 ac mae'n rhy hen i gynnig tystiolaeth o gyflwyniad eleni. Mae'r archwiliad rheoli heintiau'n cynnwys un dudalen o ddeng safon ac nid yw wedi'i ddyddio. Nid yw'r Archwiliad a'r cynllun gweithredu Hylendid Dwylo sy'n dyddio o 22 Mehefin 2007 yn cynnwys unrhyw dystiolaeth y cymerwyd camau o ganlyniad i'r archwiliad.

S5.8 Er mwyn dangos y cymerir camau yn sgil pryderon yn ymwneud â materion cynnal a chadw, darparwyd tystiolaeth o gamau a gymerwyd i ddatrys problemau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y cymerir camau i ymdrin â phryderon am hylendid a glendid yn brydlon.

S5.9 Mae taflen ymgyrch 'glanhewcheichdwylo' wedi'i chynnwys fel tystiolaeth, ond ac eithrio hyn, nid yw'n ymddangos y bu unrhyw werthusiad o'r ymgyrch na thystiolaeth bellach bod cleifion yn teimlo eu bod wedi'u hymrymuso mewn gwirionedd i herio aelodau'r staff am faterion yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Byddai mwy o fanylion am y ffordd y dosberthir y daflen yn cryfhau'r ymateb. Rydym yn cytuno mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr a chan nad oes tystiolaeth o ddefnydd ymarferol ar draws y sefydliad rydym o'r farn mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofawyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd;

- b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac*
- c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar ddewisiadau yn ymwneud â'u gofal.*

S6.1 Daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad eleni ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S6.2 Darparodd yr Ymddiriedolaeth rai enghreifftiau o gamau a gymerwyd yn ystod y 12 mis diwethaf i fynd i'r afael â'r safon hon. Maent yn cynnwys:

- Sefydlu Pwyllgor Cyfathrebu.
- Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth fel cyhoeddiad papur newydd i'w ddsbarthu'n eang gyda'r papur newydd lleol.
- Sefydlu cronfa ddata o ieithoedd a siaredir.
- Cyflwyno polisi Gwybodaeth ysgrifenedig.
- Sefydlu fforwm Prif Nyrsys Wardiau.
- Sefydlu hyfforddiant Gofal Cwsmeriaid.

S6.3 Mae strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yr Ymddiriedolaeth yn amlinellu ei hymroddiad i ddarparu gwybodaeth, ond prin yw'r dystiolaeth bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn ieithoedd ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg, heblaw gwybodaeth am wasanaethau mamolaeth, er bod '*Llinell Iaith*' ar gael i aelodau'r staff.

S6.4 Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y broses caniatâd, a adolygwyd yn ddiweddar ac sy'n disgwyl cymeradwyaeth.

S6.5 Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu dystiolaeth o hyfforddiant a ddarperir ar wahanol lefelau o'r sefydliad ynghylch ganiatâd a chyfathrebu yn ogystal â rhaglenni datblygu ar gyfer Rheolwyr

Wardiau a gweithwyr Gofal Iechyd cynorthwyol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth o faint sy'n manteisio ar yr hyfforddiant hwn a phrin yw'r wybodaeth am werthuso'r hyfforddiant hwn.

S6.6 Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, mae'n ymddangos mai'r prif ddull a ddefnyddir i fonitro a all defnyddwyr gwasanaeth gael mynediad at wybodaeth yw'r broses gwynion, ac mae hyn yn ymatebol ei natur ac nid yw'n ystyried y defnyddwyr nad ydynt neu na allant achwyn. Mae'r Panel Darllenwyr yn cynnig sylwadau ar wybodaeth am gleifion ac yn asesu pa mor addas ydyw ar gyfer ei diben.

S6.7 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu tystiolaeth i gefnogi aeddfedrwydd **Datblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond oherwydd bod y dystiolaeth i ddangos gwelliant ar lefel Profiad y Defnyddiwr yn gyfyngedig, rydym yn parhau i fod o'r farn mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel hon.

Safon 7

Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S7.2 Prin yw'r dystiolaeth benodol o arweinyddiaeth, atebolrwydd a chynllunio gweithredol ar lefel y Bwrdd. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o weithgareddau meincodi a monitro'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Pobl Hŷn neu'r Gweithrediad Rheoli Clefyd Coronaidd (CDM).

S7.3 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailadrodd rhai o'r dulliau strategol iddi eu cyflwyno yn ei hunanasesiad blaenorol, ond mae wedi cynnig rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig i ddangos ei bod yn bodloni'r safon hon, yn cynnwys ei Strategaeth

lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (HSCWB), ac enghreifftiau o ddatblygiad Llwybr Gofal Integredig (ICP) o bob rhan o'r sefydliad.

S7.4 Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys ailadrodd llawer o'r gweithgarwch hyfforddi a ddefnyddiwyd i gefnogi ei hunanasesiad blaenorol. Llwyddodd i ddarparu rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig, o ran adborth addysgol ar gyfer 2008, i ddynodi bod meysydd pwnc perthnasol yn dod i'r amlwg o fewn agenda hyfforddiant i'r dyfodol arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â rhoi'r NSF ar waith.

S7.5 Nid yw'n eglur sut mae aelodau'r staff yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu ICP, Rhaglenni Cleifion Arbenigol, na ffyrdd eraill o hybu cyfraniad cleifion at gynllunio gofal a hunanofal. Disgrifiodd yr Ymddiriedolaeth ei ddull cyffredin fel un sy'n ymrymuso pob defnyddiwr gwasanaeth i gael dewis. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau o ganlyniadau'r athroniaeth gyffredin braidd yn gyfyngedig gan y sefydliad ehangach, fel y Gwasanaethau Plant er enghraifft.

S7.6 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu tystiolaeth o'r ffordd mae'n annog datblygiad pellach mewn meysydd eraill, fel gofal corfforol i oedolion a meysydd cyflwr/gwasanaeth er enghraifft. Darparwyd rhai enghreifftiau o ffyrdd penodol y mae'n cynnwys ei chleifion mewn meysydd gwasanaeth, yn cynnwys adeiladu ar waith y llynedd oedd yn ymwneud a diabetes.

S7.7 Rydym yn cytuno gyda'r asesiad **Datblygol** ar y lefel Gorfforaethol ond rydym o'r farn bod angen cryfhau cynlluniau strategol ymhellach. Rydym o'r farn mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol oherwydd prinder y dystiolaeth a ddarparwyd ac rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod y staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a chyda pharch i'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd bob amser cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a*
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar bob un o'r tair lefel].*

S8.2 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Strategaeth 'Celfyddydau mewn Iechyd' ar gyfer Urddas a Pharch mewn Arferion Gwaith (Mai 2007) sy'n disgrifio nifer o brosiectau, ond ni ddarparwyd unrhyw gynllun gweithredu ategol neu ddisgrifiad o sut mae cynnydd yn cael ei fonitro.

S8.3 Mae tystiolaeth i ddangos bod cynnydd yn cael ei gyflawni o ran yr agenda Hanfodion Gofal a bod yr Ymddiriedolaeth yn datblygu Rhaglen Urddas mewn Gofal Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd. Mae'n ymddangos bod camau y cyfeiriwyd atynt ym mhapur y Bwrdd Rheoli ym mis Hydref 2007 yn ymwneud â'r rhaglen hon wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad cau ym mis Mawrth 2008. Er bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cyfeirio at ddatblygiad y cynllun Urddas mewn Gofal, nid yw wedi'i gynnwys yn y dystiolaeth. Mae nifer o'r dogfennau polisi sydd wedi'u cynnwys yn rhy hen hefyd.

S8.4 Mae rhai enghreifftiau o gynnydd ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol yn cynnwys:

- Diweddarau'r rhaglen ymsefydlu aelodau staff i gynnwys sesiwn yn canolbwyntio ar barch ac agwedd. Cynhaliwyd cyfres o weithdai hefyd i amlygu'r materion hyn.

- Defnyddio fideo hyfforddi o'r enw '*Good Attitude*'.
- Cynnig hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

S8.5 Darparwyd enghraifft dda o'r ffordd mae aelodau'r staff wedi dylanwadu ar newid. Roedd yn ymwneud â monitro cleifion strôc yn ystod cyfnod aciwt eu salwch. Prynwyd a gosodwyd monitorau mewn rhan pedwar gwely o'r ward ailsefydlu ac argymhellwyd y gellid ei defnyddio fel ardal rhyw cymysg yn yr un ffordd ag y rheolir yr Uned Gofal Dwys. Fodd bynnag, codwyd y mater hwn fel pryder gan aelodau'r staff nyrso o ran preifatrwydd ac urddas. Adolygwyd y cynlluniau a phenderfynwyd adleoli'r offer monitro i ardaloedd dau wely, fydd yn cael eu rheoli fel ardaloedd un rhyw.

S8.6 Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn cyfeirio at arolwg staff a gynhelir ddwywaith y flwyddyn a chynllun gweithredu cysylltiedig, ac adroddir ar gynnydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Rheoli bob chwarter. Nid oes tystiolaeth ategol yn amlwg fodd bynnag. Mae cynllun gweithredu'r Arolwg Staff yn hen iawn ac nid yw'n mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

S8.7 O ran y prosesau ar gyfer cydsyniad deallus, mae'r cyflwyniad archwilio, sy'n fwy na blwydd oed, yn anghyflawn ac nid yw'n cynnwys unrhyw argymhellion ac nid oes unrhyw dystiolaeth o gynlluniau i ail-archwilio. Disgwyliwyd i'r polisi caniatâd gael ei adolygu ym mis Tachwedd 2006 a disgwyliwyd i'r fframwaith Llywodraethu Clinigol strategol a gyflwynwyd fel dystiolaeth i gael ei adolygu yn 2006 hefyd.

S8.8 Mae'n ymddangos bod hyfforddiant i aelodau'r staff ar Gydsyniad Deallus wedi'i sefydlu, ond nid oes dystiolaeth i gadarnhau i ba raddau mae'r hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio neu ei werthuso. Mae rhywfaint o wybodaeth bellach o gyflwyniad y llynedd sy'n datgan bod y broses o sefydlu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi effeithio ar y ffordd y darperir gofal yn ystod y 12 mis diwethaf.

S8.9 Yr unig ddiweddariad i ymateb yr Ymddiriedolaeth o ran cyfrinachedd gwybodaeth am gleifion yw'r cyfeiriad at y ffaith y datblygwyd polisïau drafft a chynllun gwaith fel paratoad ar gyfer uno'r Ymddiriedolaeth ag Ymddiriedolaethau Caerfyrddin a Sir Benfro a Derwen, er mwyn paratoi aelodau'r staff i sicrhau

cydymffurfiad â'r polisi ar gyfrinachedd cleifion a rhannu gwybodaeth. Prin yw'r wybodaeth am y ffordd mae cydymffurfiad â pholisïau cyfrinachedd cleifion a rhannu gwybodaeth cyfredol yn cael ei fonitro.

S8.10 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos ei fod wedi cymryd rhai camau i wella ei haeddfedrwydd o ran y safon hon yn ystod y deuddeng mis diwethaf ac felly rydym o'r farn ei bod yn parhau i fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Fodd bynnag, asesir mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr eleni. Mae hyn yn bennaf gan nad yw llawer o'r dystiolaeth a'r wybodaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr wedi'u diweddarau ers y llynedd, ac felly mae'n rhy hen.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet cytbwys; a*
- b. bod gofynion maeth, personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod bwyd ar gael iddynt 24 awr y dydd.*

S9.1 Daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S9.2 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu dangos bod rhai systemau ar waith i fynd i'r afael â'r safon hon. Mae Grŵp Strategaeth Maeth yn arwain datblygiadau ar draws y sefydliad ond er bod y cyflwyniad yn cyfeirio at y ffaith bod cynllunio'r gweithlu'n gysylltiedig â dibyniaeth cleifion, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth ategol.

S9.3 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Bolisi Maeth oedd yn dyddio o 2003 gan nodi yn ei chyflwyniad ei fod wedi'i ddiwygio'n sylweddol ac yn disgwyl cymeradwyaeth gan y Bwrdd. Cyflwynwyd adroddiadau'r Cyfarwyddwr Nyrsio i'r Bwrdd Rheoli ond

prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos sut y sicrheir Bwrdd yr Ymddiriedolaeth o ran y Safon hon.

S9.4 Darparodd yr Ymddiriedolaeth wybodaeth am waith a gyflawnwyd i sicrhau bod adnoddau a threfniadau addas ar waith i gynorthwyo cleifion sydd angen cymorth i fwyta. Byddai tystiolaeth ategol wedi cryfhau'r wybodaeth hon ymhellach.

S9.5 Profwyd dull sgrinio diffyg maeth ond mae'r Cynllun Gwella Safonau Gofal lechyd yn dangos bod angen gwneud gwaith sylweddol o hyd o wella cydymffurfriad ac i'w ehangu er mwyn sicrhau ei fod ar gael ym mhob rhan o'r sefydliad. Yn yr un modd, mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu hyfforddiant i rai grwpiau staff ond mae angen iddi ymestyn ei gwmpas i sicrhau ei fod yn cyrraedd pob grŵp perthnasol.

S9.6 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos ei bod wedi datblygu amrywiaeth o systemau i sicrhau y cynigir dewis a diet cytbwys i gleifion. Mae archwiliad arsylwi a gynhaliwyd yn cynnig tystiolaeth dda iawn o arferion da.

S9.7 O'r dystiolaeth a ddarparwyd, mae'n amlwg bod gan yr Ymddiriedolaeth nifer o fentrau diddorol ar waith. Nid yw'n eglur a ydynt yn deillio o fenter unigol neu a yw'r Ymddiriedolaeth yn cynorthwyo'r datblygiadau hyn yn systematig. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei strategaethau Maeth yn cynnwys pob lefel ac yn cael eu rhoi ar waith yn gadarn er mwyn sicrhau dull cyson.

S9.8 Mae'n ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol ar gyfer trin, storio a pharatoi bwyd. Darparwyd enghreifftiau o brosesau archwilio a monitro a sefydlwyd nifer o fentrau yn ystod y deuddeng mis diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'n eglur i ba raddau mae'r rhain o ganlyniad i adborth gan gleifion gan mai prin yw'r dystiolaeth o arolygon bodlonrwydd cleifion a gyflwynwyd a lle darparwyd manylion arolygon, nid yw'n eglur pa ddefnydd a wnaed o'r wybodaeth hon. Mae cynnwys ysgol leol yn y gwaith o gynnal arolwg bwyd yn ddiddorol, felly hefyd y gwaith gydag *Age Concern* i roi gwirfoddolwyr ar wardiau penodol.

S9.9 Rydym o'r farn felly mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 15

Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn cael rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn gwynion;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1 Fel rhai o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r canlyniad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S15.2 Darparwyd tystiolaeth i gefnogi cydymffurfriad â'r safon hon, sy'n cynnwys:

- Polisi a Gweithdrefn Cwynion.
- Sefydlu Panel Monitro Cwynion.
- Adrodd am gwynion a gwaith rheoli cwynion dilynol i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ac i'r Pwyllgor Rheoli Risg.
- Y Panel Monitro Cwynion, sy'n Is-bwyllgor i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yn llunio adroddiadau bob chwarter ar gwynion anffurfiol/llafar.
- Staff yn adrodd am gwynion anffurfiol ar ffurflenni penodol a'r adran gwasanaethau cleifion yn eu hadolygu.

S15.3 Mae'r Panel Monitro Cwynion yn is-bwyllgor i'r Bwrdd ac mae ganddo gynrychiolaeth weithredol ond ni ddarparwyd tystiolaeth bod y Bwrdd yn monitro cynnydd yn erbyn y Safon hon.

S15.4 Darparwyd esboniad manwl gan yr Ymddiriedolaeth o'r ffordd mae'n ymdrin â chwynion, ond prin oedd y dystiolaeth i ddangos sut mae aelodau'r staff yn cael eu hyfforddi neu eu gwneud yn ymwybodol o'r broses rheoli cwynion ac eithrio yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

S15.5 Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth o ran adborth i ddefnyddwyr sydd â phryderon yn gyfyngedig gan ei fod yn canolbwyntio ar gwynion yn unig. Hefyd, nid yw'n ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth yn monitro cydraddoldeb trwy'r broses gwynion.

S15.6 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu enghreifftiau o wersi a ddysgwyd a chamau unioni a gymerwyd yn sgil cwynion, ond nid yw wedi dangos sut y rhoddyd adborth ar y camau hyn i achwynwyr a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth.

S15.7 Mae ymateb a thystiolaeth yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi ei hasesiad **Datblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ond ystyrir mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 17

Mae cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymwneud â chyrff eraill.

S17.1 Daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarferol** ar bob un o'r tair lefel eleni. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar bob un o'r tair lefel].*

S17.2 Mae'n ymddangos mai prin iawn fu'r cynnydd yn erbyn y safon hon ers y llynedd. Defnyddiwyd llawer o'r un dystiolaeth ar gyfer eleni ac nid oes unrhyw dystiolaeth o gamau a gymerwyd, yn enwedig o ran polisïau a gymeradwywyd gan y Bwrdd a sicrwydd y Bwrdd o ran polisïau rhyngasiantaeth. Mae hyfforddiant amddiffyn plant gorfodol wedi parhau ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu hyfforddiant mewnol ar faterion amddiffyn plant penodol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth y cynhaliwyd gwerthusiadau o hyfforddiant. Nid oes tystiolaeth chwaith o greu'r set ddata sylfaenol ar gyfer Archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol fel y

nodwyd dan safbwynt y defnyddiwr fel rhan o asesiad yr Ymddiriedolaeth yn 2006/07.

S17.3 Prin yw'r dystiolaeth bod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan ac nid oes unrhyw bolisiâu a gymeradwywyd gan y Bwrdd yng nghyswllt y Safon hon. Prin iawn yw'r dystiolaeth bod y Bwrdd yn ymwybodol o drefniadau amddiffyn plant o ran asiantaethau eraill. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn aelod o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLIDP), ac mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi yr adroddir am gofnodion a materion sy'n codi o'r BLIDP i'r Bwrdd ond ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ategol o hyn.

S17.4 Roedd yn ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth wedi darparu mwy o dystiolaeth ar gyfer yr hunanasesiad diwethaf a oedd yn cynnwys rhai dogfennau pwysig fel y polisi recriwtio a Swyddfa Cofnodion Troseddol; roedd yn ymddangos eu bod yn gynhwysfawr a disgwyliwyd iddynt gael eu hadolygu ddiwedd 2008.

S17.5 Roedd yn ymddangos y darparwyd mwy o adnoddau ar gyfer yr agenda diogelu plant yn 2006/07. Roedd dystiolaeth o swydd ymwelydd iechyd a ariennir ar y cyd, ond nid yw'r swydd hon yn ymddangos yn y dystiolaeth ar gyfer 2007/08. Roedd swydd nyrs ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi'i chynnwys yn y cynllun datblygu hefyd ac mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ei bod yn dal i geisio sicrhau cyllid ar gyfer y swydd hon. Fodd bynnag, mae wedi sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer cymorth gweinyddol i gynnal y gronfa ddata plant sy'n derbyn gofal.

S17.6 Mae'n ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod ar gam datblygu cynnar iawn o ran y trefniadau ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth yn ymarferol ar y lefel Gorfforaethol na'r lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol o ran Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, er bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith a bod dystiolaeth o waith aml-asiantaeth. Nid oes unrhyw dystiolaeth o'r ffordd y cynhelir archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi dynodi nad ydynt yn cynnal archwiliadau Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.

S17.7 Mae tystiolaeth y darperir hyfforddiant amddiffyn plant i aelodau'r staff ond mae'n ymddangos mai ychydig o'r staff meddygol sydd wedi manteisio ar yr hyfforddiant. Prin yw'r wybodaeth hefyd am werthusiadau i'r hyfforddiant a ddarperir. Mae'r adroddiad blynyddol (dogfen Strwythur Bwrdd Lleol Diogelu Plant oedd wedi'i chynnwys yn y dystiolaeth ar y lefel Gorfforaethol) yn dynodi diffyg adnoddau ar gyfer amddiffyn plant. Mae'n ymddangos bod y nyrs enwebedig yn gweithio ar ei phen ei hun gydag ychydig iawn o gymorth. Nid oes unrhyw wybodaeth am y meddyg penodol ac ni nodwyd unrhyw weithwyr proffesiynol eraill ag amser neilltuedig.

S17.8 Rydym o'r farn felly mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 25

Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S25.2 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu strwythurau rheoli priodol i ddiffinio, datblygu a goruchwylio'r broses o weithredu ei strategaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth ond yr un maes nad yw'n gwbl effeithiol yw un rheoli newid. Mae hwn yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef wrth i geisiadau gwella gwasanaeth gynyddu.

S25.3 Mae enghreifftiau o arferion da fel diweddariadau i'r cynllun gweithredu archwiliadau, sy'n cynnig tystiolaeth o ddadansoddiad gwrthrychol o argymhellion ar gyfer gwella. Tra bod y strategaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn bodoli, mae'n amlwg bod angen gorfodi cydymffurfiad â'i hamserlen adolygu.

S25.4 Mae rhagor o ystadegau perfformiad ar gael, trwy'r system PAS; ond nid yw'r broses i symud o ddadansoddi adrannol i weithredu corfforaethol yn eglur.

S25.5 Mae gwaith datblygu'r seilwaith yn ddatblygedig iawn ac mae mynediad at y rhwydwaith yn ddaearyddol annibynnol ac mae hyn yn cael effaith eglur ar y ddarpariaeth o wasanaethau i'r defnyddiwr terfynol.

S25.6 Mae canolbwynt ar hyfforddiant o ran ei darpariaeth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos y rhoddwyd llai o ystyriaeth i'r gofynion o'r safbwynt nad yw'n eglur sut y cynhelir dadansoddiadau o anghenion hyfforddiant a sut yr ystyrir yr anghenion hyn wrth gynllunio hyfforddiant.

S25.7 Rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Rydym wedi asesu bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr gan fod uniondeb data'n faes sy'n peri pryder o ystyried y ffaith ei bod yn ymddangos bod dulliau croeswiro'n absennol a bod y diffyg dangosyddion perfformiad lefel uchel yn amharu ar gynllunio corfforaethol o ran uniondeb data.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:

- a. bod y sefydliad, o'r funud y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu'n derfynol, yn cynnal y wybodaeth mewn modd sy'n ateb diben gwreiddiol ei chasglu, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan nad oes ei hangen arnynt mwyach; a*
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarferol** ar bob un o'r tair lefel. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S26.2 Mae strategaeth rheoli cofnodion wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y meysydd statudol gofynnol. Mae'r grŵp llywio Technoleg a Rheoli Gwybodaeth bellach yn

monitro cydymffurfiad â'r strategaeth yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Rheoli Risg a ofynnodd i'r newid hwn gael ei roi ar waith. Mae cofnodion y pwyllgor llywio Technoleg a Rheoli Gwybodaeth mis Tachwedd 2007 yn cyfeirio at y diweddariad i'r cynllun gweithredu Rheoli Cofnodion.

S26.3 Mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau priodol yn bodoli ond nid oes tystiolaeth benodol o unrhyw waith cynllunio sy'n ymwneud â materion rheoli cofnodion. Mae nodi arweinydd adrannol ar gyfer rheoli cofnodion iechyd yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod y pwnc yn cael ei ystyried o ddifrif ac y gellir cyflawni gwaith monitro lleol.

S26.4 Er y cynhelir archwiliadau, prin yw'r dystiolaeth i ddynodi sut y penderfynir ar y pynciau archwilio, ac yna sut mae unrhyw gynllunio gweithredol angenrheidiol yn cael ei gyflwyno a'i fonitro.

S26.5 Prin yw'r dystiolaeth i ddynodi bod dull systematig o archwilio, dadansoddi a chynllunio gweithredol, er nad oes unrhyw arwydd ychwaith bod profiad y defnyddiwr yn gyffredinol wael yn y pen draw.

S26.6 Rydym yn anghytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth a chan fod tystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ers cyflwyniad y llynedd yn absennol eleni, rydym o'r farn mai **Datblygol** yw asesiad yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel Gorfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

5. A gyflawnwyd gwelliannau ar gyfer y Safonau hynny lle yr aseswyd bod Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru yn Ymwybodol neu'n Ymatebol yn 2006-07?

Safon 1

Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S1.2 Mae'n eglur o'r cyflwyniad bod cynlluniau ar waith i ddatblygu cyfeiriad strategol o ran y Safon hon fel rhan o'r broses o uno. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo Strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd newydd sy'n nodi'r cyd-destun a'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynnwys y cleifion a'r cyhoedd yn natblygiad ei wasanaethau.

S1.3 Mae'r strategaeth ddrafft Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yn uchelgeisiol ac yn eang iawn ac er y disgrifir gweithgarwch gweithredol sydd wedi'i gynllunio i gynnwys cleifion a gofalwyr yn natblygiad gwasanaethau penodol, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddynodi cyfeiriad strategol. Hefyd, prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod gweithdrefnau a ddefnyddir ar draws ffiniau sefydliadol ar waith.

S1.4 Mae'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lies (HSCWB) wedi'i sefydlu ers 2005. Nid oes dystiolaeth i ddangos sut mae ei gweithrediad yn cael ei gynyddu neu ei fonitro gan y Bwrdd.

S1.5 Darparwyd enghreifftiau ar y lefel Weithredol o rai dulliau i roi cyfle i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr gynnig adborth ar eu profiadau ac ansawdd gwasanaethau penodol. Fodd bynnag, ni ddarparwyd dystiolaeth fanwl o ddefnydd ymarferol ar draws holl gwmpas y Safon hon. Mae adroddiad y

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn gul iawn o ran ffocws ac mae'n berthnasol i ofal ymataliaeth yn unig. Ni ellir disgrifio'r Cynllun Gweithredu ar Strôc sydd wedi'i gynnwys yn y dystiolaeth fel cynllun gweithredu mewn gwirionedd - mae'n nodi camau pellach y mae angen eu cymryd ond nid oes unrhyw dystiolaeth o amserlenni na chanlyniadau disgwylidig. Nodwyd blaenoriaethau yn nogfen y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ond nid yw hon yn dystiolaeth ar ei phen ei hun bod gweithdrefnau a pholisïau ar waith ar draws yr adrannau iechyd a gofal cymdeithasol.

S1.6 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ddangos ei bod wedi cymryd camau dros y 12 mis diwethaf i wella ei haeddfedrwydd ar lefel Profiad y Defnyddiwr y Safon hon ac mae rhai o'r camau hyn yn cynnwys:

- Cychwyn rhaglen wirfoddoli i gynorthwyo cleifion gyda phrydau bwyd.
- Sefydlu rhaglen rhieni mewn partneriaeth â grŵp cenedlaethol i wella mynediad at waith i rieni.
- Sefydlu 'thema'r mis' i wella arsylwadau a rheoli esmwyth.
- Cyflwyno ffrwd waith 'Atal Cwmpo Ceredigion' sydd wedi bod yn effeithiol i godi ymwybyddiaeth a datblygu mentrau newydd.

S1.7 Nid oes cyfeiriad uniongyrchol yn yr ymateb at sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r sylwadau a wnaed yn adroddiad y llynedd am y safbwynt sydd gan rai cleifion ac aelodau staff na cheisir adborth yn eang ac nad yw cwynion yn cael eu hannog yn ymarferol.

S1.8 Er bos yr Ymddiriedolaeth yn gallu disgrifio'r dulliau sydd ar waith i gasglu sylwadau defnyddwyr gwasanaeth mewn nifer o feysydd ar lefel leol, prin yw'r dystiolaeth o werthuso neu o sut yr ystyrir adborth wrth ddylunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella gwasanaethau penodol.

S1.9 Nid yw llawer o'r enghreifftiau a ddarparwyd i ddangos gwelliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau a phrofiad y claf yn lleol yn dangos yn eglur bod y newidiadau hyn yn ganlyniad uniongyrchol o gasglu safbwyntiau cleifion a'r cyhoedd. O ystyried y dystiolaeth brin o gyfeiriad strategol, rydym o'r farn mai **Ymatebol** yw'r

Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac rydym yn cytuno mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 2

Mae'r gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S2.2 O ran ymateb i anghenion iechyd y boblogaeth mae'n ei gwasanaethu, prin yw'r dystiolaeth o gyfeiriad strategol, ac mae'n ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth o'r farn mai'r comisiynwyr sy'n bennaf gyfrifol. Mae'r cyflwyniad yn cyfeirio at gyfarfodydd rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a Chyngor Iechyd Cymuned (CIC) Ceredigion, ond nid yw cofnodion y cyfarfodydd wedi'u cynnwys yn y dystiolaeth a gyflwynwyd.

S2.3 Mae'r Cynllun Gweithredu HSCWB yn dyddio o 2006-07. Mae'n ymddangos bod bylchau sylweddol yn y gwaith o fonitro'r cynllun gweithredu hwn. Nid yw'n ymddangos bod y Broses Asesu Unedig wedi datblygu o gwbl.

S2.4 Mae'n ymddangos mai'r dulliau allweddol sydd wedi'u sefydlu i reoli a datrys galw a gofynion sydd o bosibl yn cystadlu â'i gilydd yw'r Fforwm Gynllunio tair sir a nodwyd yr angen i adolygu cylch gorchwyl y grŵp hwn yn sgil yr uno. Nodir bod gofynion lleol sy'n cystadlu â'i gilydd yn cael eu trafod ar lefel y Bwrdd, ond ni adlewyrchir hyn yn y dystiolaeth (h.y. Cofnodion y Bwrdd).

S2.5 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i wella ei haeddfedrwydd o ran lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr y Safon hon. Mae rhai o'r camau hyn yn cynnwys:

- Datblygu gwaith proffilio'r gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â materion fel amseroedd mynediad estynedig ym maes Nyrsio Ardal a mynediad uniongyrchol i ddiagnosteg i Feddygon Teulu.
- Cyflwyno Telefeddygaeth; cyflwynwyd cais ar y cyd gan dair Ymddiriedolaeth y canolbarth am system rhwydweithio cardiaidd a gynlluniwyd i ddarparu cyngor ar-alwad a darlenniadau telemetreg o unrhyw un o'r ysbytai.
- Yr Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan ymarferol yn y Grŵp Cynllunio Gofodol (y Canolbarth); mae Uwchgynllun Aberystwyth a'r strategaeth HSCWB yn dylanwadu ar y strategaeth drafnidiaeth leol er mwyn gwella mynediad at ofal iechyd.
- Lanlwytho manylion y prosiectau diweddaraf, arferion da a chofnodion pwyllgorau perthnasol lle trafodwyd tystiolaeth ac arferion da i wefan yr Ymddiriedolaeth.

S2.6 Mae tystiolaeth o gynnydd a gweithgarwch i wella mynediad i gleifion at wasanaethau mewn nifer o wahanol ardaloedd, gan ganolbwyntio ar gludiant a phroffilio gwasanaethau. Mae'n ymddangos o'r ymateb bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos gyda chomisiynwyr i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â mynediad. Fodd bynnag, byddai cynnwys enghreifftiau o gofnodion y Bwrdd y cyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniad wedi cryfhau'r ymateb.

S2.7 Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i ddatblygu a rhannu gwybodaeth cleifion yn seiliedig ar arferion gorau a thystiolaeth glinigol, er y byddai'n ddefnyddiol cael gwybod sut mae cynhyrchu deunydd o'r fath yn cael ei fonitro a'i werthuso.

S2.8 Mae dulliau ar gyfer hysbysu cleifion am amseroedd aros a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt ar gyfer cael mynediad at wasanaethau'n ymatebol, ac mae angen i'r

Ymddiriedolaeth ystyried sut i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn barod i bob claf. Cyfrifoldeb y cleifion yw cysylltu â'r Ymddiriedolaeth dan y systemau cyfredol.

S2.9 Gan nad oes cynlluniau strategol eglur na thystiolaeth o arferion da ar draws y sefydliad yn bresennol, ystyrir bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol. Yn gyffredinol, mae tystiolaeth o welliant, sy'n gyson â hunanasesiad **Datblygol** ar Ymddiriedolaeth ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 3

Mae cleifion sydd ag anghenion iechyd brys yn cael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S3.2 Mae gweithgarwch a ddisgrifir yn y cyflwyniad yn cynnwys:

- Lefelau presenoldeb cynyddol yn yr Uned Mân-anafiadau.
- Cyflwyniad i'r Bwrdd ar systemau Asesu Brys sydd newydd eu datblygu mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

S3.3 Gwahoddwyd yr Uned Cymorth Datblygu i mewn i'r Ymddiriedolaeth i gynorthwyo i ddatblygu Cynllun Gweithredu i wella amseroedd aros adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Yn anffodus, ni fu unrhyw welliant cynaliadwy a bwriedir cynnal asesiad ffurfiol bellach.

S3.4 Roedd yn eglur o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda chleifion y llynedd nad oedd y rhai oedd yn bresennol yn ymwybodol o dargedau cenedlaethol. Nid yw'r hyn mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i wneud i ddatrys hyn yn eglur, ac eithrio nodi yn ei hymateb bod y wasg yn adrodd ar berfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol yn

rheolaidd a bod perfformiad yn cael ei reoli'n rhagweithiol gan yr Ymddiriedolaeth. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn; nid yw'r ymateb yn dynodi beth mae'r rheoli rhagweithiol hwn yn ei gynnwys chwaith.

S3.5 Rydym wedi dod i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ddangos ei bod wedi cymryd camau i wella ei haeddfedrwydd o ran lefel Profiad y Defnyddiwr y Safon hon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Prin iawn fu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth yn y maes hwn. Rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr felly.

Safon 10

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n derbyn gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu amlwg ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

S10.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S10.2 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i wella ei haeddfedrwydd o ran lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr y Safon hon, gan gynnwys:

- Datblygu 'Strategaeth Iechyd Rhywiol Integredig' gan ganolbwyntio ar anghenion pobl ifanc (er ei bod yn dyddio o 2006 ac yn dal i fod ar ffurf drafft).
- Datblygu clinigau mynediad min nos ar gyfer pobl ifanc (yn gysylltiedig â'r Strategaeth Iechyd Rhywiol).
- Mentrau telefeddygaeth i alluogi mynediad gwell i bobl hŷn, pobl anabl, pobl ifanc iawn a'r rhai ag anghenion cymdeithasol cymhleth.

S10.3 Mae'n amlwg bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd ers y llynedd o ran darparu hyfforddiant i aelodau staff ynghylch oedran, rhyw, anabled, ethnigrwydd, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol, ac mae rhywfaint o dystiolaeth o werthuso'r hyfforddiant hwn drwy ffurflen adborth 'Hyfforddi'r Hyfforddwr'. Mae'n amlwg bod camau'n cael eu cymryd ac mae tystiolaeth o ddefnydd ymarferol.

S10.4 Ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, mae'n anodd nodi tystiolaeth o welliant ers cyflwyniad y llynedd o'r ymateb a gafwyd. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd fwy neu lai yr un fath ac mae angen ei hadolygu. Fodd bynnag, mae'r ymateb yn disgrifio datblygiadau sy'n cefnogi aeddfedrwydd Datblygol ac rydym wedi cytuno felly â hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gallai wella'r dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r safon hon, er mwyn cynnal neu wella'r asesiad hwn.

S10.5 Rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 11

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;*
- b. y caiff triniaethau a gofal clinigol eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol priodol;*
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a*
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.*

S11.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S11.2 Y llynedd, fe wnaethom adrodd y dylai'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â goruchwyliaeth glinigol er mwyn cynnal lefel Datblygol ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dal i fod yr un fath â'r llynedd fodd bynnag. Prin yw'r dystiolaeth i ddynodi bod gweithred Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd 2007/08 yr Ymddiriedolaeth o adolygu asesiad Bwrdd yr Ymddiriedolaeth o allu goruchwyliaeth aelodau staff yn barhaus, gan gynnwys adrodd am eithriadau a risgiau cysylltiedig wedi'i chyflawni. Hefyd, nid yw'n eglur sut y sicheir y Bwrdd trwy adroddiadau gan y Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol a Nyrsio.

S11.3 Fe wnaethom nodi'r llynedd er ein bod yn cytuno gyda'r asesiad Datblygol, bod tystiolaeth o gyfeiriad strategol yn brin ac nad oedd cynllun hyfforddiant a datblygiad cyffredin ar gyfer mesur adroddiadau, a thrwy hynny sicrwydd, yn ei erbyn. Prin yw'r dystiolaeth o hyd i awgrymu bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol.

S11.4 Mae'n ymddangos bod gwaith ym maes cynllunio Effeithiolrwydd Clinigol ac Archwilio'n datblygu ac rydym yn falch o nodi bod cynnydd wedi'i wneud trwy gwblhau a sefydlu'r System Rhybudd Cynnar Ddiwygiedig, a oedd yn cael ei harchwilio ar adeg cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth.

S11.5 Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn parhau i fod yr un fath â'r hyn a ddarparwyd y llynedd, ac mae rhywfaint o'r dystiolaeth a ddarparwyd yn amherthnasol i'r cwestiwn a ofynnwyd, sy'n ymwneud â sut mae profiadau cleifion yn rhoi sail i'r broses o ddiweddarau sgiliau a thechnegau.

S11.6 Hefyd, ni wnaed unrhyw gyfeiriad at y camau a nodwyd yng Nghynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd 2007/08 yr Ymddiriedolaeth oedd yn ymwneud â sicrhau bod penderfyniadau clinigol yn seiliedig ar arferion gorau. Er enghraifft, nododd yr Ymddiriedolaeth yr angen i ddsbarthu adroddiadau archwilio'n ehangach ac adolygiad sy'n addas ar gyfer y cyhoedd neu ddiweddariadau ar gyfer cyfarfodydd CIC.

S11.7 Gan fod cyfeiriad strategol eglur yn absennol mewn rhai meysydd, rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol. Rydym yn cytuno

gyda'r Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol eleni, er bod angen rhoi sylw i gyfleoedd goruchwyliaeth glinigol a datblygu arweinyddiaeth gan ei bod yn ymddangos eu bod yn dal i ganolbwyntio ar aelodau'r staff nyrsio. Nid oes polisi neu gynllun goruchwyllo clinigol cyffredin ar gyfer pob grŵp staff wedi'i sefydlu o hyd. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ddangos ei bod wedi cymryd camau i wella ei haeddfedrwydd o ran lefel Profiad y Defnyddiwr y Safon hon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac felly rydym o'r farn ei bod yn **Ymatebol** ar y lefel hon.

Safon 12

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. yn cydymffurfio â gwerthusiadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c. yn ystyried anghenion a dewisiadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*
- ch. yn integredig er mwyn darparu gwasanaeth di-dor gan yr holl gyrff y mae angen iddynt fod yn rhan, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S12.2 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gydnabod yn ei hymateb mai prin fu'r cynnydd o ran gweithredu Llwybrau Gofal Integredig, sy'n rhannol oherwydd yr uno. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod rhywfaint o'r gwaith a ddisgrifiwyd y llynedd wedi parhau i gynyddu a bod prosiectau peilot newydd wedi cychwyn.

S12.3 Ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ychydig sydd wedi'i gynnwys yn yr ymateb i ddynodi sut mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu ac yn cefnogi

datblygiad Llwybrau Gofal Integredig ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn. Y llynedd, fe wnaethom adrodd nad oedd unrhyw dystiolaeth o sut roedd y Bwrdd yn blaenoriaethu Llwybrau Gofal Integredig. Nid yw'r ymateb eleni'n dynodi bod y Bwrdd wedi mynd i'r afael â hyn nac wedi cydnabod y mater.

S12.4 Mae papurau'r Cyfarwyddwr Nyrsio i'r Bwrdd yn trafod meysydd fel urddas a pharch a hanfodion gofal, ond mae'n anodd dweud sut mae rhywfaint o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn berthnasol i'r ymateb mewn gwirionedd (e.e. cerdyn sgorio cytbwys / siart sefydliadol y gyfarwyddiaeth lawfeddygol ac ati). Hefyd, nid oes dystiolaeth yn ymwneud â'r Fforwm Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi'i chynnwys.

S12.5 Rydym wedi ystyried y dystiolaeth a'r ymateb ac rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ddangos ei bod wedi cymryd camau i wella ei haeddfedrwydd ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac felly rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymatebol** ar y ddwy lefel.

Safon 14

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r deddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S14.2 Ar y lefel Gorfforaethol, prin yw'r dystiolaeth i ddynodi sut y sicheir y Bwrdd o gydymffurfiaid â gofynion a deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac arferion gorau rheoli risg, mae'r ymateb yr un fath â'r llynedd. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol bod 'gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd cleifion,

defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd yn cael eu hadolygu a'u gwella'n barhaus ac yn systematig'. Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod hyn wedi digwydd. Disgwylwyd i'r Polisi Iechyd a Diogelwch a'r Llawlyfr Iechyd a Diogelwch gael eu hadolygu yn 2007 a 2004 yn eu trefn, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn datgan bod y ddau wedi'u diweddarau a'u bod yn disgwyl cymeradwyaeth gan y Bwrdd, ond ni ddarparwyd y dogfennau diwygiedig fel tystiolaeth gefnogol fodd bynnag.

S14.3 Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, unwaith eto mae'r ymateb yr un fath â'r hyn a ddarparwyd y llynedd ac nid oes unrhyw dystiolaeth i ddynodi bod camau a nodwyd y llynedd, fel yr amserlen archwilio Iechyd a Diogelwch ym mhob lleoliad, wedi'u cyflawni. Hefyd, ni chyflawnwyd camau a nodwyd ar gyfer Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd 2007/08, ac maent wedi'u cynnwys eto fel camau ar gyfer 2008-09.

S14.4 Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, nid oes unrhyw dystiolaeth o welliant ers y llynedd ac mae'r ymateb yn parhau i fod heb ei newid. Dywedir bod y blwch awgrymiadau ar gyfer y cyhoedd a leolwyd yn ystafell aros yr adran Cleifion Allanol wedi bod yn ddull cyfathrebu defnyddiol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn.

S14.5 Mae'r enghraifft o fater sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yr un enghraifft a ddarparwyd yng nghyflwyniad y llynedd. Nid oes unrhyw beth i awgrymu bod y cam a nodwyd yng Nghynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd y llynedd, h.y. datblygu taflen wybodaeth ar sut i godi pryderon, wedi'i gyflawni. Yn yr un modd, nododd yr Ymddiriedolaeth yng Nghynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd y llynedd yr angen i ddatblygu archwiliad iechyd a diogelwch gan ymateb i fethiannau i gydymffurfio â deddfwriaeth oedd heb eu nodi. Nid yw'n ymddangos y cymerwyd unrhyw gamau o ran y mater hwn. Mae'r ffaith na adroddwyd unrhyw fethiannau i gydymffurfio â deddfwriaeth mewn dwy flynedd yn codi amheuan am effeithiolrwydd y systemau cyfredol.

S14.6 Yn anffodus, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ddangos ei bod wedi cymryd camau i ddatblygu ei haeddfedrwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac felly rydym o'r farn ei bod yn **Ymatebol** ar bob un o'r tair lefel eleni.

Safon 16

Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu oddi wrthynt;*
- b. i hysbysu am ddigwyddiadau i System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac*
- ch. i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn unol â hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a chyfathrebiaeth arall yn ymwneud â diogelwch cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol.*

S16.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S16.2 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymdrechu i ddangos ei bod wedi cymryd camau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wella ei haeddfedrwydd ar lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr y Safon hon ac mae rhai o'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn cynnwys:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwelliannau i'w system a'i dulliau rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Mae wedi sefydlu'r system DATIX, gan weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin.
- Mae wedi cyflwyno papur 'Gwersi a Ddysgwyd' yn y Pwyllgor Rheoli Risg a Llywodraethu Clinigol.
- Mae wedi datblygu dull o ymdrin â rhybudd yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) ar gyfer defnyddio chwistrellau meddyginiaeth y geg.
- Mae wedi datblygu canllawiau newydd ar gyfer gosod draeniau o ganlyniad i roi gwybod am ddigwyddiad andwyol difrifol.

- Mae wedi prynu sganiwr 'agored' newydd yn dilyn adroddiad o ddigwyddiad pan wnaeth claf ddiodeff clawstroffobia a chynhyrfu tra'r oedd mewn sganiwr MRI.

S16.3 Mae'r pwynt olaf yn enghraifft dda iawn o sut mae'r broses rhoi gwybod am ddigwyddiadau wedi gwella profiad cleifion. Fodd bynnag, un enghraifft o newid a ddarparwyd ar gyfer cyfanswm o 539 digwyddiad. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth adolygu cyfanswm y digwyddiadau mae wedi rhoi gwybod amdanynt i'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion hefyd, gan fod y ffigurau a ddarparwyd yn ei thystiolaeth yn dod i gyfanswm o 160%.

S16.4 Ni ddarparwyd unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaid â rhybuddion diogelwch cleifion unwaith eto eleni. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â gwendidau yn systemau sicrhau cydymffurfiaid yr Ymddiriedolaeth ac rydym yn argymhell bod yr Ymddiriedolaeth yn gwerthuso ei dulliau.

S16.5 Ar y lefel Gorfforaethol, mae'n amlwg bod yr Ymddiriedolaeth yn cynorthwyo datblygiad systemau rhoi gwybod am ddigwyddiadau, trwy sefydlu'r system DATIX er enghraifft.

S16.6 Nid yw'n eglur fodd bynnag sut y sicrheir y Bwrdd o sut mae profiad a gwybodaeth leol a chenedlaethol am ddigwyddiadau'n cyfrannu at ddulliau effeithiolrwydd clinigol a gwella ansawdd. Nid oes unrhyw gofnodion neu adroddiadau'r Bwrdd wedi'u cynnwys fel tystiolaeth i gefnogi'r ymateb ac mae'n ymddangos mai'r strwythurau pwyllgor a'r Cynllun Datblygu Llywodraethu Clinigol sy'n gyfrifol am sicrhau'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Llywodraethu Clinigol Tair Blynedd a amgaewyd yn cyfeirio at gam gweithredu yn ymwneud ag adborth i aelodau staff ar ddigwyddiadau a adroddwyd a nodwyd yn 2005 yn unig. Mae'r cam gweithredu hwn yn dal i fod ar y cam ambr ac ni adroddwyd arno ers 2006.

S16.7 Y llynedd, roeddem yn cytuno gyda hunanasesiad Datblygol yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol er y gwnaethom gynghori y byddai angen cynllun gwella cadarn i gynnal hyn. Gan nad oedd gwelliant eglur ar y lefel hon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig o ran dulliau priodol i sicrhau'r Bwrdd, rydym

o'r farn mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol. Fodd bynnag, rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn gweithio i wella'r gofal ar gyfer cleifion a gwella boddhad y staff yn barhaus, drwy ddarparu arferion gorau o ran rheoli adnoddau dynol.

S20.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S20.2 Mae'n eglur bod yr Ymddiriedolaeth yn buddsoddi mewn adnoddau sydd â'r nod o ddatblygu arferion gorau mewn rheoli adnoddau dynol ac mae systemau a phrosesau cynhwysfawr wedi'u sefydlu. Er mwyn cyfiawnhau aeddfedrwydd Ymarferol ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol fodd bynnag, byddai angen tystiolaeth o werthuso a gwelliant parhaus. Mae'n deg dweud nad yw'r ymateb eleni'n dangos gwelliant parhaus ac ehangwyd y cyflwyniad i gynnwys y sefydliad ehangach. Byddai tystiolaeth yn dangos y buddion a welwyd a'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn wedi symud yr Ymddiriedolaeth tuag at asesiad Ymarferol.

S20.3 Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu'r canlynol:

- Sefydlu Grŵp Cynllun Gweithredu Arolwg sy'n cyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu y cytunwyd arno.
- Gall aelodau'r staff gynnig sylwadau hefyd ar amrywiaeth eang o faterion trwy gwestiynau cyfrinachol i'r Prif Weithredwr yn ein Sesiwn 'Holi Allison'.
- Datblygu Polisi a Holiadur Cyfweiliad Gadael.
- Adolygiad blynyddol o bob achos cysylltiadau gweithwyr cyflogedig a'r canlyniadau dysgu o'r achosion a adolygwyd.

- Ennill Gwobr Aur y Safon Iechyd Corfforaethol.
- Sefydlu Cynllun Gweithredu 'Y Cynllun Gwaith'.

S20.4 Mae llawer mwy o bwyslais yn ymateb eleni ar ganlyniadau a gwelliant yn hytrach na'r prosesau'n unig, ac mae Cynllun Gweithredu'r Cynllun Gwaith yn cynnig enghraifft dda o hyn. Hefyd, daeth adroddiad diweddar ar reoli Absenoldeb oherwydd Salwch gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwella ei threfn o reoli ac atal achosion o absenoldeb oherwydd salwch. Rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu sy'n cynrychioli arferion da wedi'u sefydlu sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau rheoli ariannol cadarn, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn cefnogi'r holl staff yn ymarferol i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored, ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch. yn cynnwys asesiadau risg a rheoli risg mewn modd systematig; ac*
- d. wedi eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S27.2 Mae'n ymddangos bod y sesiynau cwestiwn ac ateb 'Holi Allison' gyda'r Prif Weithredwr wedi bod yn ddull da o gynnwys aelodau staff ar y lefel weithredol. Mae'n bosibl bod ganddynt swyddogaeth hefyd i ddylanwadu ar y Bwrdd trwy'r Prif Weithredwr o ran cyfrannu sylwadau a phryderon aelodau'r staff, ond byddai hyn yn cael budd o werthuso mwy strwythuredig.

S27.3 Mae'n llai eglur pa strwythurau a threfniadau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer y gwahanol elfennau llywodraethu i'w trosglwyddo i fyny i'r Bwrdd a'r is-bwyllgorau o'r

adrannau a'r isadrannau. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr uno wedi cymell mwy o weithgarwch o ran datblygu trefniadau llywodraethu ar y cyd ledled y tair sir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

S27.4 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i wella ei haeddfedrwydd ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae rhai enghreifftiau o'r newidiadau mae wedi'u gwneud yn cynnwys:

- Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio wedi sefydlu Tasglu Glanhau: mae adroddiadau blynyddol ar gyfer 2007-08 wedi dangos mai'r Ymddiriedolaeth sydd â'r cyfraddau Clostridium Difficile (C-Diff) isaf yng Nghymru a bod y cyfraddau Staffylococws awrëws sy'n gwrthsefyll Methisilin (MRSA) ymhlith yr isaf.
- Datblygu cynlluniau i sicrhau mynediad i glinigwyr at labordy sgiliau clinigol.
- Safoni'r holl ddiffibrilwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth.
- Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio Telefeddygaeth i ddarparu cyswllt o bell gyda Chaerdydd ar gyfer asesu plant yn glinigol er mwyn cynorthwyo i wneud penderfyniadau am drosglwyddiadau.

S27.5 Ychydig sydd yn yr ymateb a phrin yw'r dystiolaeth i ddynodi sut mae defnyddwyr gwasanaeth yn dylanwadu ar drefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth ac efallai y byddai'r ymateb wedi bod yn gryfach pe bai newidiadau a ddisgrifiwyd yng nghyflwyniad y llynedd wedi cael eu gwerthuso i ddarganfod eu heffeithiolrwydd. Er enghraifft, archwiliad o'r polisïau a'r gweithdrefnau newydd ar gyfer gofalu am linellau Hickman a gwerthuso hyfforddiant sy'n seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer offer trwytho.

S27.6 Mae'r strwythurau a'r prosesau corfforaethol a ddisgrifir yr un fath â'r llynedd yn eu hanfod. Rydym o'r farn felly bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 30

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd, sy'n cynnwys staff, sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth*

Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac
b. yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.

S30.1 Fel rhan o'i hunanasesiad yn 2007-08, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S30.2 Mae gan yr ymateb a'r dystiolaeth ategol ar y lefel Gorfforaethol ffocws gweithredol a phrin yw'r dystiolaeth i ddynodi bod rhaglenni atal clefydau a hybu iechyd a reolir yn systematig yn cael eu datblygu gan ymateb i gynlluniau strategol. Disgrifir enghreifftiau o raglenni atal clefydau a hybu iechyd a reolir dan lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol y safon hon. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl gweld cyfeiriad at y Strategaeth HSCWB a chynnydd yn erbyn cerrig milltir a meysydd allweddol a nodir yn y Cynllun Oes a Her Iechyd Cymru. Gan fod dystiolaeth o'r fath yn absennol, rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S30.3 Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, mae'r ymateb a'r dystiolaeth yn union yr un fath â'r hyn a ddarparwyd y llynedd, felly mae'n anodd gweld lle mae profiad y defnyddiwr gwasanaeth yn gwella. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod unrhyw fentrau a ddisgrifiwyd wedi'u gwerthuso i ddarganfod eu heffeithiolrwydd; fodd bynnag, byddai'n annheg dweud na ddatblygwyd unrhyw ddulliau. Rydym yn cytuno felly bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn **Ddatblygol** ar y lefel hon, ond mae angen iddi werthuso'r rhaglenni a ddisgrifir bellach er mwyn dangos yr effaith i ddefnyddwyr gwasanaeth.

6. Pa mor dda y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi eu hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu a sicrhau mewnol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru?

6.1 O'r wybodaeth a gasglwyd o hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth, yr Uwchgynhadledd Gofal Iechyd a chyfarfodydd gyda Swyddfa Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac archwilwyr mewnol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru, mae'n amlwg bod llawer o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd a'u gwneud yn rhan o brosesau llywodraethu'r sefydliad.

6.2 Rydym wedi ymgynghori ag archwilwyr mewnol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru wrth asesu pa mor dda y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi'u hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu a sicrhau mewnol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru. Yn unol â'r dull y cytunwyd arno gydag archwilwyr mewnol ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol ar draws Cymru, maent wedi:

- Adolygu hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth a'i gyfraniad at y rhaglen ar-lein ar gyfer y safonau hynny y cyfeiriwyd atynt yn benodol yn Natganiad Rheolaeth Fewnol yr Ymddiriedolaeth, sef:
 - × **Safon 14:** *Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.*
 - × **Safon 16:** *Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:*
 - a. *i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu oddi wrthynt;*
 - b. *i hysbysu am ddigwyddiadau i System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
 - c. *i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac*
 - ch. *i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn unol â hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a chyfathrebiaeth arall yn ymwneud â diogelwch cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol.*

- × **Safon 27:** *Mae trefniadau llywodraethu sy'n cynrychioli arferion da wedi'u sefydlu sydd:*
 - a. *yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
 - b. *yn sicrhau rheoli ariannol cadarn, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
 - c. *yn cefnogi'r holl staff yn ymarferol i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored, ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;*
 - ch. *yn cynnwys asesiadau risg a rheoli risg mewn modd systematig; ac*
 - d. *wedi eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

- × **Safon 28:** *Mae cyrff gofal iechyd:*
 - a. *yn sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn sail i waith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol;*
 - b. *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
 - c. *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

Roedd yr adolygiad o bob safon yn cynnwys adolygiad o'r 'stori' a'r dystiolaeth sy'n ei chefnogi, ac asesiad o briodoldeb hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth o'i haeddfedrwydd.

- Cynhaliwyd asesiad o'r broses a ddefnyddiwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru wrth baratoi a chwblhau'r hunanasesiad.
- Adolygwyd Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru ar gyfer 2007-08 a'r prosesau sydd wedi'u sefydlu i fonitro ac adrodd ar gynnydd, gan roi sylw penodol i asesu pa un a wnaed gwelliannau o ran y meysydd a'r safonau hynny a oedd yn 'ymwybodol' neu'n 'ymatebol' yn ôl gwerthusiad AGIC y llynedd.
- Aseswyd pa un a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn ymgysylltu'n briodol â'r broses hunanasesu ac o ran ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd.

6.3 Rydym felly yn gallu cadarnhau:

- Bod y lefelau aeddfedrwydd a nodwyd yn hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer safonau 14, 16, 27 a 28 yn realistig ac yn gywir.

- Bod y broses a ddefnyddiwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru wrth baratoi a chwblhau eu hunanasesiad yn gadarn. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r graddau y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi'u hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu'r sefydliad, ond cydnabyddir bod y broses uno wedi effeithio ar allu'r sefydliad i symud yn ei flaen.
- Bu rhywfaint o fonitro o Gynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd 2007-08 yr Ymddiriedolaeth a derbyniwyd diweddariadau gan y Bwrdd. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio'n adrodd yn rheolaidd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Rheoli.
- Hysbyswyd aelodau'r Bwrdd trwy adroddiadau, ac yn ddiweddarach drwy'r broses a sicrhodd bod y Safonau Gofal Iechyd yn eitem ar yr agenda. O ystyried nifer y safonau ar y lefel Gorfforaethol a aseswyd yn Ymatebol eleni, rydym yn cwestiynu i ba raddau yr ymgysylltwyd y Bwrdd.

6.4 Rydym yn cytuno â barn archwilwyr mewnol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru mai prin yr ymsefydlwyd ac yr integreiddiwyd y Safonau Gofal Iechyd i brosesau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth. Mae grŵp bach iawn wedi bod yn gyfrifol am y broses Safonau Gofal Iechyd ac mae angen mwy o gyfraniad ar lefel y Bwrdd i gryfhau'r ymatebion corfforaethol a chefnogi'r ymgyrch i ymsefydlu'r safonau gofal Iechyd mewn prosesau llywodraethu.

7. Y Camau Nesaf

7.1 Ym mis Ebrill 2008, fe wnaeth Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru uno gydag Ymddiriedolaethau GIG Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a Derwen i ffurfio Ymddiriedolaeth GIG newydd Hywel Dda.

7.2 Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd yn seiliedig ar Hunanasesiadau'r tair Ymddiriedolaeth sydd wedi uno erbyn diwedd mis Hydref 2008. Bydd Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno ar y cynllun hwn ac yn monitro'r broses o'i weithredu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd wedi'u sefydlu ar gyfer GIG Cymru. Bydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

7.3 Wrth lunio eu Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd, mae'n bwysig i'r sefydliadau sydd newydd uno fanteisio ar y cyfle i gynnwys cryfderau pob sefydliad a amlygir gan eu hasesiadau unigol.

7.4 Bydd AGIC yn cyhoeddi adroddiad Cymru gyfan ym mis Hydref 2008, a fydd yn cynnwys canfyddiadau o adroddiadau unigol i greu trosolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn amlygu'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd gan broses asesu Safonau Gofal Iechyd eleni.

Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymatebol	Datblygol	Ymarferol	Arweiniol
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt ond nid yw'n gallu dangos penderfyniadau/camau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, ond ni cheir tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da ar draws y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ar draws y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy weithredu arfer arloesol a rennir ar draws y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, sy'n golygu y gellir gwreiddu cynaliadwyedd hirdymor.
Gweithredol	Ceir ymwybyddiaeth o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Ceir ymwybyddiaeth o'r materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt a nodwyd ystod o ddewisiadau i fynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ar draws y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda yn cael eu gweithredu ar draws y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol, a cheir tystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arfer arloesol, a rennir ar draws y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol, er bod dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ar draws y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol, ac mae'r gwasanaeth yn gallu dangos tystiolaeth eglur o arfer da, y gellir ei rannu.

Atodiad 2

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon ar gyfer y Safonau hynny a Ddilyswyd yn Annibynnol gan AGIC

Allwedd

L	Arweiniol
P	Ymarferol
D	Datblygol
R	Ymatebol
A	Ymwybodol

Safon 1

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	$\frac{3}{4}$	R
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 2

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 3

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

Safon 4

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 5

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	$\frac{3}{4}$	R
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 6

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

Safon 7

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	$\frac{3}{4}$	R
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 8

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

Safon 9

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 10

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	$\frac{3}{4}$	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 11

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

Safon 12

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

Safon 14

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	$\frac{3}{4}$	R
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

Safon 15

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	$\frac{3}{4}$	R
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 16

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 17

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	$\frac{3}{4}$	R
Profiad y Defnyddiwr	P	$\frac{3}{4}$	R

Safon 20

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	$\frac{3}{4}$	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 25

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	$\frac{3}{4}$	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	P	$\frac{3}{4}$	R

Safon 26

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	$\frac{3}{4}$	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	$\frac{3}{4}$	D
Profiad y Defnyddiwr	P	$\frac{3}{4}$	D

Safon 27

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 30

	Dyfarniad yr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	R
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	D

Atodiad 3

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Safonau hynny nad ydynt yn agored i Ddilysiad Annibynnol gan AGIC

Allwedd

L	Arweiniol
P	Ymarferol
D	Datblygol
R	Ymatebol
A	Ymwybodol

Safon 13

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007-08
Corfforaethol	D	Ž	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	Ž	P
Profiad y Defnyddiwr	D	Ž	P

Safon 18

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007-08
Corfforaethol	P	$\frac{3}{4}$	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

Safon 19

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007-08
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 21

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007-08
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

Safon 22

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	Ž	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	Ž	P
Profiad y Defnyddiwr	D	Ž	P

Safon 23

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	Ž	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	Ž	P
Profiad y Defnyddiwr	D	Ž	P

Safon 24

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	™ 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	Ž	P
Profiad y Defnyddiwr	D	™ 3	D

Safon 28

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	Ž	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	™ 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	™ 3	D

Safon 29

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	™ 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	™ 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	™ 3	D

Safon 31 – Amherthnasol



Safon 32

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanaseiad 2007- 08
Corfforaethol	D	Ž	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	Ž	P
Profiad y Defnyddiwr	D	Ž	P


Atodiad 4

Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar draws y deg safon graidd


Rydym yn cytuno â 50% o'r sgorau ar gyfer y deg safon graidd yng nghyflwyniad 2007-08. Mae hyn yn is na'r llynedd pan oeddem yn cytuno â 57% o'r sgorau yn erbyn yr un safonau, a chafodd 7% ychwanegol sgôr uwch.




Sgorau Aeddfedrwydd ar y Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol



Sgorau Aeddfedrwydd ar Lefel Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/Anghytuno â Sgôr yr Ymddiriedolaeth ar draws y deg safon graidd



Y Safonau Gofal Iechyd i Gymru

Maes 1: Profiad y Claf

Safon 1: Ceisir barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd, ac fe'i hystyrir wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Safon 2: Mae'r gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.

Safon 3: Mae cleifion sydd ag anghenion iechyd brys yn cael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Safon 4: Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn:

- a. hybu lles y cleifion a'r staff;
- b. parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;
- c. ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;
- ch. darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.

Safon 5: Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd:

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.

Safon 6: Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd;
- b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac
- c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a

chytuno ar ddewisiadau yn ymwneud â'u gofal.

Safon 7: Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain.

Safon 8: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod y staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a chyda pharch i'r gwahaniaethau rhyngddynt;
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd bob amser cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.

Safon 9: Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet cytbwys; a
- b. bod gofynion maeth, personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod bwyd ar gael iddynt 24 awr y dydd.

Safon 10: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n derbyn gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu amlwg ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

Maes 2: Canlyniadau Clinigol

Safon 11: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
- b. y caiff triniaethau a gofal clinigol eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol priodol;
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

Safon 12: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. yn cydymffurfio â gwerthusiadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);
- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn

genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;

c. yn ystyried anghenion a dewisiadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac

ch. yn integredig er mwyn darparu gwasanaeth di-dor gan yr holl gyrff y mae angen iddynt fod yn rhan, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.

Safon 13: Mae gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwysu'n gyson.

Maes 3: Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14: Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parhau'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

Safon 15: Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

a. yn cael rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;

b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn gwynion;

c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac

ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Safon 16: Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu oddi wrthynt;

b. i hysbysu am ddigwyddiadau i System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;

c. i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac

ch. i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn unol â hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a chyfathrebiaeth arall yn ymwneud â diogelwch cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol.

Safon 17: Mae cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymwneud â chyrrff eraill.

Safon 18: Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi, a gweithredu pan fo angen hynny, ymateb trefnedig i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau arferol.

Safon 19: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;
- b. bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a
- ch. bod y gwaith o atal, gwahanu, trin, cludo a gwaredu gwastraff yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.

Safon 20: Mae cyrff gofal iechyd yn gweithio i wella'r gofal ar gyfer cleifion a gwella boddhad y staff yn barhaus, drwy ddarparu arferion gorau o ran rheoli adnoddau dynol.

Safon 21: Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn cynnal yr holl gamau archwilio gofynnol ar gyfer cyflogaeth ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwysedig, boed yn gyflogedig neu ar gontract, wedi eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;
- b. yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gydymffurfio â'u codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac
- c. yn rhoi sylw, pan fo hynny'n briodol, i dangynrychioli o ran grwpiau ethnig.

Safon 22: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni sefydlu a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac
- c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.

Safon 23: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi gan:

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y driniaeth ohonynt neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu sefyllfa; a
- b. rhaglenni datblygiad sefydliadol a rhaglenni datblygiad personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.

Safon 24: Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. fod â gweithlu sy'n briodol o sefydledig ac sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ym mhob rhan o'r gymuned; a
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.

Safon 25: Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

Safon 26: Mae gan gyrrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:

- a. bod y sefydliad, o'r funud y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu'n derfynol, yn cynnal y wybodaeth mewn modd sy'n ateb diben gwreiddiol ei chasglu, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan nad oes ei hangen arnynt mwyach; a
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

Safon 27: Mae trefniadau llywodraethu sy'n cynrychioli arferion da wedi'u sefydlu sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;
- b. yn sicrhau rheoli ariannol cadarn, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- c. yn cefnogi'r holl staff yn ymarferol i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored, ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- ch. yn cynnwys asesiadau risg a rheoli risg mewn modd systematig; ac
- d. wedi eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.

Safon 28: Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn sail i waith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol;
- b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac
- c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.

Maes 4: Iechyd y Cyhoedd

Safon 29: Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu mewn modd dangosol, ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy:

- a. gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a
- b. sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd

Safon 30: Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd, sy'n cynnwys staff, sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau

Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac

b. yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.

Safon 31: Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod cynlluniau ar waith i baratoi adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd pe byddai digwyddiad sylweddol o glefyd heintus neu argyfwng iechyd arall yn digwydd;
- b. yn nodi ac yn gweithredu ynglŷn â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd a materion anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;
- c. yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd;
- ch. yn annog a chefnogi unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Safon 32: Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

Rhestr Termau

Damweiniau ac Achosion Brys (A&E) - Adran mewn ysbytai sy'n darparu triniaeth frys a thriniaeth gychwynnol ar gyfer anafiadau a salwch.

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – mae'n darparu cyngor i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau'n strategol.

gweithwyr proffesiynol cysylltiedig ag iechyd – amrywiaeth eang o grwpiau proffesiynol sydd fel rheol yn darparu gwasanaethau therapiwtig mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol, cymdeithasol a gofal sylfaenol. Maent yn cynnwys Trinwyr Traed/Podiatregwyr, Ffisiotherapyddion, Therapyddion Galwedigaethol, Dietegwyr a Therapyddion Lleferydd ac Iaith.

atebolrwydd - cyfrifoldeb, yn yr ystyr o orfod bod yn atebol am rywbeth.

cynllun gweithredu - cynllun gweithredu ac amserlen y cytunwyd arnynt sy'n gwneud gwelliannau i wasanaethau, yn dilyn adolygiad o lywodraethu clinigol.

gofal aciwt - defnyddir y term i ddisgrifio triniaeth feddygol, lawfeddygol neu seiciatrig byrdymor ar gyfer salwch neu anaf difrifol sydd yn cynnwys gwasanaeth meddygon ac aelodau staff clinigol eraill mewn lleoliad ysbyty.

eiriolaeth - y broses o gefnogi a galluogi pobl i fynegi eu safbwyntiau a'u pryderon; cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau; amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau; ac, ymchwilio i ddewisiadau. Mae eiriolwyr yn cefnogi ac yn dadlau achosion defnyddwyr gwasanaeth ac yn eu cynorthwyo i gyflwyno eu safbwyntiau.

gwerthusiad - asesiad o i ba raddau y mae perfformiad unigolyn yn bodloni'r safonau neu'r amcanion sy'n ofynnol yn ei swydd.

archwiliad - adolygiad sy'n canfod pa mor dda mae gwasanaeth yn diwallu safonau neu feini prawf y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n darparu patrwm y gall sefydliad ei ddefnyddio i egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u troi'n gamau gweithredu. Mae'n cynorthwyo gwelliant parhaus mewn perfformiad sefydliadol.

meincnodi - proses o gymharu â grwpiau tebyg i weld sut mae arferion lleol yn cyd-fynd ag arferion tebyg mewn lleoedd eraill.

Gwarcheidwad Caldicott - uwch glinigwr ym mhob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a adolygodd y broses o ddiogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal – cyfres o gamau trin a gofal a ddiffiniwyd sydd â'r nod o ddiwallu anghenion penodol pob claf.

cynllun gofal - cynllun sy'n nodi'r gwasanaethau yr ystyrir y mae eu hangen ar unigolyn a sut y bydd yr angen hwn yn cael ei ddiwallu.

gofalwyr - pobl sy'n gofalu am eu partneriaid, perthnasau a ffrindiau'n ddi-dâl, yn aml yn hytrach na nyrs.

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – mae'n darparu gwasanaeth rheoleiddio ac arolygu ar gyfer gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) - tîm o bobl o wahanol broffesiynau sy'n cynnig amrywiaeth o therapïau i gynorthwyo pobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl.

clinigol – mae'n golygu unrhyw driniaeth a ddarperir gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys meddygon, nyrsys, therapyddion ac ati. Mae anghlinigol yn golygu rheoli, gweinyddu, arlwyo, gwaith porthor ac ati.

archwiliad clinigol – gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthuso a mesur pa mor dda maent yn bodloni safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaethau.

effeithiolrwydd clinigol - i unigolion, mae hyn yn golygu i ba raddau mae triniaeth yn sicrhau'r gwelliant mewn iechyd y mae wedi'i chynllunio i'w sicrhau ar gyfer claf. I sefydliadau cyfan, mae'n golygu i ba raddau y mae'r sefydliad yn sicrhau y defnyddir 'arferion gorau' pryd bynnag y bo hynny'n bosibl a bod canlyniadau clinigol yn cyfateb i feincnodau priodol.

llywodraethu clinigol - fframwaith sy'n gwneud sefydliadau'r GIG yn atebol am wella'n barhaus ansawdd eu gwasanaethau a diogelu safonau uchel o ofal, trwy greu amgylchedd lle y bydd rhagoriaeth mewn gofal clinigol yn ffynnu.

adolygiad o lywodraethu clinigol - adolygiad o'r polisiau, y systemau a'r prosesau a ddefnyddir gan sefydliad i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel i gleifion. Mae'r adolygiad yn ystyried y ffordd y mae'r polisiau hyn yn gweithio'n ymarferol.

digwyddiad clinigol - digwyddiad sy'n digwydd mewn ysbyty neu yn y gymuned pan allai cleifion neu'r cyhoedd fod wedi dioddef niwed gwirioneddol neu bosibl.

gwybodaeth glinigol - gwybodaeth am driniaethau a roddir i glaf gan weithiwr iechyd proffesiynol. Gallai hefyd olygu gwybodaeth a gasglwyd gan sefydliad am arferion clinigol (unigolion neu dimau).

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gofal gwell i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

arfer clinigol - dulliau o ddarparu gofal iechyd.

risg clinigol - risgiau sy'n gysylltiedig â thriniaethau gofal iechyd amrywiol.

rheoli risg clinigol - deall y lefelau amrywiol o risg sy'n gysylltiedig â phob math o driniaeth a chymryd camau mewn modd systematig i sicrhau bod y risgiau yn cael eu lleihau cymaint â phosibl.

clinigwr / staff clinigol - gweithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n llawn – meddyg, nyrs, therapydd, technegydd ac ati.

goruchwyliaeth glinigol - proses ffurfiol o gymorth a dysgu proffesiynol sy'n galluogi ymarferwyr unigol i ddatblygu arferion a gwella amddiffyniad y claf a diogelwch y gofal mewn sefyllfaoedd clinigol cymhleth.

comisiynu - y broses o ganfod anghenion iechyd lleol, datblygu cynlluniau gyda phartneriaid strategol i ddiwallu'r anghenion hynny, nodi gwasanaethau iechyd penodol a gwneud trefniadau gyda darparwyr gwasanaethau iechyd i sicrhau y darperir gwasanaethau.

gofal cymunedol - gwasanaethau a ddarperir i gleifion yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir gan nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd a gwasanaethau gan weithwyr proffesiynol eraill megis therapyddion galwedigaethol. Yn aml iawn, darperir gwasanaethau gofal cymunedol mewn partneriaeth ag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol y mae llywodraeth leol yn gyfrifol amdanynt.

Cynghorau Iechyd Cymuned - Sefydlwyd Cynghorau Iechyd Cymuned ym 1974 i gryfhau cyfranogiad y gymuned mewn diffinio polisi'r wladwriaeth a pholisi lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd a'i ansawdd. Maent yn annibynnol ac yn gweithio i gynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau iechyd lleol. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned hefyd yn darparu cymorth cyfrinachol yn rhad ac am ddim i bobl sydd â phroblem neu gŵyn ynglŷn â gwasanaethau'r GIG.

gofal parhaus (cyfeirir ato fel "gofal hirdymor" hefyd) - term cyffredinol yw hwn sy'n disgrifio'r gofal sydd ei angen ar bobl dros gyfnod estynedig o amser o ganlyniad i anabledd, damwain neu salwch. Gallai fod angen gwasanaethau gan y GIG a/neu faes gofal cymdeithasol, a gellir ei ddarparu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ysbyty'r GIG, cartref gofal (sy'n darparu gofal preswyl neu ofal nyrsio), hosbis, ac yng nghartrefi pobl yn y gymuned.

datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) - proses ddysgu barhaus sy'n ategu addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig ffurfiol.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) - asiantaeth weithredol y Llywodraeth a sefydlwyd i gynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth mewn cofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa'n cynorthwyo cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys cysylltiad â phlant neu aelodau eraill o gymdeithas sy'n agored i niwed.

diogelu data – gofyniad i gyrrff cyhoeddus ac eraill weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Cwmpesir cyfrifoldebau o'r fath dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, sydd â'r nod o ddiogelu data a gedwir am unigolion.

oedi wrth drosglwyddo gofal - mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn digwydd i glaf mewnol mewn ysbyty sy'n barod i symud i'r cam nesaf o ofal ond sy'n cael ei atal rhag gwneud hynny am un neu fwy o resymau. Mae'r "cam nesaf o ofal" yn cynnwys pob lleoliad priodol y tu mewn a'r tu allan i'r GIG, h.y. cleifion na ellir eu rhyddhau o ofal y GIG a hefyd cleifion na ellir eu trosglwyddo o fewn y GIG i wely mwy priodol.

Cynllun Oes - cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005 gan nodi'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n sefydlu strategaeth 10 mlynedd i wireddu hynny.

maes – grŵp o weithgareddau, pryderon neu swyddogaethau. Mae gan y Safonau Gofal Iechyd i Gymru bedwar maes: profiad y claf; canlyniadau clinigol; llywodraethu gofal iechyd; ac iechyd y cyhoedd. Defnyddir y meysydd hyn i grwpio'r 32 o safonau gofal iechyd yn themâu.

derbyniad brys - derbyniad i ysbyty heb ei gynllunio sy'n digwydd o ganlyniad i argyfwng megis damwain neu salwch sydyn. Mae hyn trwy adran Damweiniau ac Achosion Brys fel rheol neu drwy feddyg teulu sy'n trefnu derbyniad ar unwaith.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar 1 Hydref 2007. Mae'n cyfuno cyfrifoldebau a phwerau'r tri chomisiwn cydraddoldeb blaenorol. Cyn sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal oedd yn gyfrifol am hybu cydraddoldeb hiliol, cydraddoldeb i bobl anabl a chydraddoldeb rhywiol ym Mhrydain.

canllawiau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth - canllawiau a luniwyd i gynorthwyo penderfyniadau clinigwyr/ cleifion dan amgylchiadau penodol a gynhyrchwyd o sylfaen ymchwil gadarn.

arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth - dull o wneud penderfyniadau yw arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth lle mae'r clinigwr yn defnyddio'r dystiolaeth orau

sydd ar gael, mewn ymgynghoriad â'r claf, i benderfynu ar y dewis mwyaf addas i'r claf hwnnw.

meddyg teulu - meddyg teulu.

Ilywodraethu - mae'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n diffinio disgwyliadau, yn rhoi pŵer neu'n gwirio perfformiad. Mae'n broses ar wahân neu'n rhan benodol o brosesau rheoli neu arwain.

Comisiwn Gofal Iechyd – y corff arolygu annibynnol ar gyfer y GIG a gofal iechyd annibynnol yn Lloegr.

Comisiwn Iechyd Cymru (CIC) - asiantaeth weithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau iechyd arbenigol i bobl Cymru.

cymuned iechyd - pob sefydliad GIG mewn ardal benodol, sydd hefyd yn cynnwys y cynghorau iechyd cymuned, a sefydliadau gwirfoddol a statudol sydd â wnelo â'r maes iechyd.

strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles - mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol (y Bartneriaeth Strategol) i ddatblygu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a fydd yn nodi ac yn mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles y gymuned leol.

safonau gofal iechyd – fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd da ym mhob lleoliad iechyd.

rheoli heintiau – cyfres o weithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer diheintiedig ac ati.

rheoli gwybodaeth a thechnoleg - term sy'n cwmpasu'r ffordd y mae sefydliad yn rheoli ei wybodaeth gan ddefnyddio technoleg.

digwyddiadau - rhywbeth sydd wedi digwydd sy'n anghyffredin ac a allai fod yn niweidiol i gleifion.

system hysbysu am ddigwyddiadau - system sy'n ei gwneud yn ofynnol i staff clinigol hysbysu am bob mater sy'n ymwneud â gofal cleifion yn dilyn problem arbennig.

Hysbysu Gofal Iechyd - rhaglen Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydlwyd i wella gwasanaethau iechyd yng Nghymru trwy gyflwyno ffyrdd newydd o gael mynediad at wybodaeth, ei defnyddio a'i chadw.

claf mewnol - claf sy'n aros yn yr ysbyty dros nos.

Awdurdod Lleol – corff llywodraeth leol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl yn ei gymuned. Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) - cyrff statudol sy'n gyfrifol am roi strategaethau ar waith i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Byrddau Lleol Diogelu Plant – mae Deddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer ei ardal, sy'n dod â chynrychiolwyr o bob un o'r prif asiantaethau ynghyd, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am gynorthwyo i amddiffyn plant rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

matrics aeddfedrwydd – ffordd o ddiffinio lefelau aeddfedrwydd a gallu sefydliadol ym mhob agwedd ar y Safonau Gofal Iechyd.

tîm amlddisgyblaeth - grŵp o bobl sydd o wahanol gefndiroedd proffesiynol.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sydd yng Nghymru fel rheol yn darparu'r holl wasanaethau gofal iechyd aciwt a chymunedol mewn ardal benodol. Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw'r eithriadau. Mae Ymddiriedolaethau'n cyflogi ystod lawn o weithiwr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion ac ati.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau i'r GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd - ei phwrpas yw cynorthwyo sefydliadau'r GIG yng Nghymru ar bob lefel i ddatblygu'r gallu a'r medrusrwydd i ddarparu'r agenda newid, cynorthwyo i sefydlu arweinyddiaeth, arloesedd ac adnewyddiad effeithiol ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad gyfan i hysbysu am gamgymeriadau sy'n effeithio ar ddiogelwch claf ac, yn bwysicach, i ddysgu o'r camgymeriadau hyn.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICCC) – mae'n darparu'r adnoddau, y wybodaeth a'r cyngor i alluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn Iechyd Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gyflawni eu swyddogaethau iechyd cyhoeddus statudol. Mae GICC yn darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus gan geisio: gwella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldeb ym maes iechyd; amddiffyn rhag afiechydon a bygythiadau sy'n bodoli eisoes yn

ogystal â rhai newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg; a chyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol (NSF) – maent yn darparu dull systematig ar gyfer mynd i'r afael â'r agenda o wella safonau ac ansawdd ar draws y sectorau gofal iechyd. Rhoddir NSF ar waith mewn partneriaeth ag adrannau gofal cymdeithasol a sefydliadau eraill. Maent yn pennu safonau cenedlaethol ac yn diffinio modelau gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth neu grŵp gofal; yn sefydlu rhaglenni i gynorthwyo gweithredu; ac yn sefydlu mesurau perfformiad y byddai cynnydd o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt yn cael ei fesur yn eu herbyn.

Galw Iechyd Cymru - gwasanaeth cyngor a gwybodaeth iechyd sydd ar gael 24 awr y dydd, bob dydd.

Ombwdsmon - mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gwynion a dderbyniwyd gan y cyhoedd am y ffordd y maent wedi cael eu trin gan gorff cyhoeddus.

canlyniadau gofal cleifion - canlyniad terfynol y driniaeth a dderbynnir gan glaf.

adran cleifion allanol - adran sy'n darparu gwasanaethau i gleifion nad ydynt yn aros yn yr ysbyty dros nos.

cynnwys y cleifion a'r cyhoedd – strategaethau a pholisïau a luniwyd i sicrhau yr ystyrir sylwadau a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalywyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd.

adolygwyr cymheiriaid a lleyg – unigolion sy'n cael eu recriwtio i gynorthwyo AGIC gyda'i weithgareddau. Mae adolygwyr cymheiriaid yn bobl sydd â sgiliau ac arbenigedd a gydnabuwyd mewn meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Pobl sy'n gallu deall a chynrychioli safbwynt cleifion a'r cyhoedd o wasanaethau gofal iechyd yw adolygwyr lleyg.

rheoli perfformiad - y defnydd o broses adolygu (y canlyniadau a ddarparwyd o'u cymharu ag amcanion a bennwyd fel rheol) er mwyn asesu pa mor dda mae unigolyn, tîm neu wasanaeth yn gweithio.

monitro perfformiad - system sy'n casglu ac yn dadansoddi'n rheolaidd pa mor dda mae unigolyn, tîm, gwasanaeth neu weithdrefn benodol yn bodloni targedau neu safonau.

gofal sylfaenol - gwasanaethau iechyd teuluol a ddarperir gan feddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, optegwyr, ac eraill megis nyrsys cymuned, ffisiotherapyddion a rhai gweithwyr cymdeithasol.

amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed (POVA) - cynllun Llywodraethol sy'n sicrhau na all y rhai sydd wedi niweidio neu gam-drin oedolion sy'n agored i niwed dan eu gofal weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed eto.

fframwaith canlyniadau ansawdd – mae'n gwobrwyo timau gofal sylfaenol am ddarparu gofal o ansawdd da i'w cleifion. Mae gan y fframwaith bedwar "maes": clinigol, sefydliadol, profiad y claf a gwasanaethau ychwanegol.

gwasanaethau adsefydlu - y driniaeth o afiechyd neu anabledd gweddilliol sy'n cynnwys pob math o therapi gyda'r nod o gynyddu annibyniaeth cleifion.

gofal eilaidd - gofal arbenigol, a ddarperir yn yr ysbyty fel rheol, ar ôl atgyfeiriad gan feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.

hunanasesiad - yng nghyd-destun safonau gofal iechyd, mae'n cyfeirio at adolygiad cynhwysfawr, systematig a rheolaidd o weithgareddau a chanlyniadau sefydliad wedi'u cymharu â'r safonau gofal iechyd. Mae'r broses hunanasesu'n galluogi'r sefydliad i nodi'n eglur ei gryfderau a'i wendidau a meysydd lle gellid gwneud gwelliannau ac yn cloi gyda champau gwella arfaethedig sydd wedyn yn cael eu monitro o ran cynnydd.

gwasanaethau cymdeithasol – yr asiantaeth sy'n gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth personol a ariennir gan awdurdodau lleol.

rhanddeiliaid – amrywiaeth o bobl a sefydliadau a effeithir gan y gwasanaethau a gynigir gan sefydliad, neu rai sydd â wnelo â'r gwasanaethau hyn. O ran gwasanaethau gofal iechyd, mae rhanddeiliaid yn cynnwys: cleifion, gofalwyr, aelodau staff, undebau, sefydliadau gwirfoddol, cynghorau iechyd cymuned, awdurdodau lleol.

datganiadau o reolaeth fewnol - datganiad o drefniadau cyffredinol corff y GIG ar gyfer sicrhau bod y prif beryglon mewn sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

bwrdd yr ymddiriedolaeth - grŵp o bobl sy'n gyfrifol yn ôl y statud am wneud penderfyniadau pwysig am strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel rheol, mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pump o aelodau lleyg (a elwir yn swyddogion anweithredol), Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

gofal trydyddol - gwasanaethau a ddarperir gan ysbytai neu adrannau arbenigol. Maent yn trin cleifion â chyflyrau cymhleth a atgyfeiriwyd gan ysbytai eraill neu feddygon arbenigol fel rheol.

Swyddfa Archwilio Cymru – Mae swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gyfrifol am amrywiaeth eang o waith archwilio ariannol, gwerth am arian ac adolygiadau eraill yn ymwneud â'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cronfa Risg Cymru - cydgynllun hunan-sicrhau ar gyfer pob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad rheoli risg da ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau penodol.